

# Mynegai Cydnerthedd Cymunedol ac 'ardaloedd llai cydnerth' yng Nghymrud

## Adroddiad technegol



## Cynnwys

Mynegai Cydnerthedd Cymunedol ac 'ardaloedd llai cydnerth' yng Nghymru .....	1
Adroddiad technegol .....	1
Cynnwys.....	2
Crynodeb gweithredol .....	5
Proffil daearyddol o Gydnerthedd Cymunedol .....	5
Lleoliad ardaloedd 'llai cydnerth' .....	5
Ffeithiau a ffigurau allweddol .....	6
Poblogaeth .....	6
Tai .....	6
Yr Economi.....	6
Cyflogaeth a diweithdra .....	7
Iechyd .....	7
Troseddu.....	7
Addysg a sgiliau .....	7
Mynediad a gwasanaethau .....	7
Anghenion cymunedol a seilwaith cymdeithasol .....	8
Cyflwyniad .....	9
Indecs Asedau Cymunedol.....	9
Proffil daearyddol o Gydnerthedd Cymunedol.....	12
Y berthynas rhwng cydnerthedd cymunedol ac amddifadedd.....	14
Lleoliad ardaloedd 'llai cydnerth' .....	16
Ffactor.....	24
Mae gan LRAau boblogaeth gymharol ifanc o'i gymharu â Chymru gyfan.....	24
...gyda'r boblogaeth yn tyfu'n arafach nag ar draws ardaloedd difreintiedig tebyg.....	24
Mae pobl sy'n byw mewn LRAau yn llai tebygol o ddod o grwpiau lleiafrifoedd ethnig nag mewn ardaloedd difreintiedig eraill... ..	25
Mae pobl sy'n byw mewn LRAau yn fwy tebygol o gael eu geni yng Nghymru ond yn llai tebygol o siarad neu ddeall Cymraeg.....	26
Tai .....	29
Mae pobl mewn LRAau yn fwy tebygol o fyw mewn tai rhent cymdeithasol... ..	29
...gyda chyfran gymharol fawr o anheddau wedi'u hadeiladu yn y cyfnod ar ôl y rhyfel.....	29
Yr Economi.....	31
Mae llawer llai o swyddi lleol ar gael mewn LRAau o'i gymharu ag ardaloedd difreintiedig eraill... ..	31
Gyda'r swyddi sydd ar gael yn llai tebygol o fod yn rhai sgiliedig iawn.....	31
Sy'n cael ei adlewyrchu mewn incwm aelwydydd cyffredinol is.....	32
Cyflogaeth a diweithdra .....	34
Mae diweithdra wedi bod yn amrywio rhwng 2004 a 2022, gyda chynnydd sydyn yn ystod argyfwng ariannol diwedd y 2000au a'r pandemig Covid-19 diweddar.....	34
Mae pobl mewn LRAau yn fwy tebygol o brofi diweithdra ehangach nag ardaloedd difreintiedig eraill ac yng Nghymru at ei gilydd.....	35

Iechyd .....	37
Mae LRAau yn profi disgwyliad oes is a disgwyliad oes iach is, a chyffredinrwydd uwch o ran salwch tymor hir cyfyngol nag ar draws Cymru gyfan. ....	37
Adlewyrchir hyn yn y gyfran gymharol uchel o oedolion o oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau oherwydd iechyd gwael ac anabledd .....	38
Mae cyfran uwch o bobl sy'n byw mewn LRAau yn ofalwyr anffurfiol – mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r lefelau cymharol uchel o salwch ac anabledd yn yr ardaloedd hyn, a diffyg mynediad at ofal ffurfiol.....	39
Mae cyfraddau marwolaethau hefyd yn uwch nag ar draws ardaloedd difreintiedig eraill .....	40
Troseddu.....	42
Mae LRA yn profi mwy o droseddu na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pob prif fath o drosedd – er yn is na'r cyfartaledd ar draws ardaloedd difreintiedig eraill.....	42
Mae lefelau troseddau treisgar yn uwch yn yr LRAau na chyfartaledd Cymru, ac maent yn codi, sy'n cyd-fynd â'r stori genedlaethol .....	42
Addysg a sgiliau .....	44
Mae pobl mewn LRAau yn fwy tebygol o fod heb gymwysterau ac yn llai tebygol o fod â chymwysterau lefel gradd nag mewn ardaloedd difreintiedig eraill ac yng Nghymru yn gyffredinol .....	44
Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y deilliannau addysgol i blant – mae lefelau cyrhaeddiad ymysg plant ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn is yn yr LRAau na'r cyfartaledd ledled Cymru, gyda bwlch mwy o ran cyrhaeddiad ymysg plant hŷn.....	44
...Gan arwain at gyfran is o oedolion ifanc sy'n mynd i Addysg Uwch .....	45
Mynediad a gwasanaethau.....	46
Mae cartrefi mewn LRAau yn llai tebygol o fod yn berchen ar gar na'r cyfartaledd ledled Cymru... ..	46
Anghenion cymunedol a seilwaith cymdeithasol .....	47
Mae'r LRAau yn perfformio'n gymharol wael ar y mesur <i>Cymuned Egniol ac Ymgysylltiol</i> .....	48
Caiff hyn ei adlewyrchu mewn diffyg gweithgarwch y trydydd sector mewn LRAau sy'n arwain at lefelau is o gyllid i gefnogi anghenion economaidd-gymdeithasol o'i gymharu ag ardaloedd difreintiedig eraill .....	50
Atodiad A: Yr ardaloedd llai cydnerth.....	51
Atodiad B rhestr o ddangosyddion yn yr adroddiad.....	54
Atodiad C:Indecs Asedau Cymunedol: Pob MSOA yng Nghymru .....	57
Atodiad D: Y dangosyddion ym Indecs Asedau Cymunedol .....	71
Atodiad E: Methodoleg ar gyfer Cynhyrchu Indecs Asedau Cymunedol. ....	89
Cam 1 Trosi data dangosyddion i lefel MSOA .....	89
Cam 2 Sicrhau Ansawdd y data .....	91
Cam 3 Defnyddio crebachiad i wella cadernid y dangosyddion.....	91
Cam 4 Sicrhau bod pob dangosydd yn “pwyntio i'r un cyfeiriad” .....	91
Cam 5 Cynhyrchu dangosyddion cyfansawdd .....	91
Cam 6 Safoni.....	93
Cam 7 Creu is-feysydd .....	93
Cam 8 Dangosyddion pwysoli.....	94
Cam 9 Cyfuno dangosyddion i ffurfio is-feysydd a meysydd.....	94
Cam 10 Safoni meysydd .....	94
Cam 11 Pwysoli meysydd .....	95

Cam 12 Creu Indecs Asedau Cymunedol (IAC) .....	95
<i>Cam 13 Nodi mewn ardaloedd llai cydnerth</i> .....	95
Atodiad F: Methodoleg Dadansoddi Ffactorau.....	97
Atodiad G: Trawsnewid esbonyddol.....	98
Dosbarthiad safonol.....	98
Canslo .....	98
Nodi ardaloedd difreintiedig.....	98
Annibynnol o ran graddfa .....	99
Y cyfrifiad trawsnewid esbonyddol .....	99
Atodiad H: Crebachiad.....	100
Gwella dibynadwyedd gwerthoedd data ardaloedd bach gan ddefnyddio amcangyfrif crebachiad.....	100
Dewis yr ardaloedd mwy lle gall data ardal fach annibynadwy fenthycu cryfder .....	100
Y cyfrifiad crebachu .....	100

## Crynodeb gweithredol

Mae Indecs Asedau Cymunedol (IAC) wedi cael ei ddatblygu i gymharu i ba raddau mae ardaloedd yn wynebu heriau sy'n gysylltiedig â seilwaith cymunedol a dinesig gwael, arwahanrwydd cymharol a lefelau isel o gyfranogiad. Mae IAC yn cael ei greu drwy gyfuno cyfres o ddangosyddion ar lefel MSOA wedi'u cysyniadu o dan dri maes:

- Asedau Dinesig: Mesurau o bresenoldeb asedau cymunedol, dinesig, addysgol a diwylliannol allweddol yn yr ardal ac yn agos ati.
- Natur gysylltiedig: Mesurau cysylltedd i wasanaethau allweddol, seilwaith digidol, arwahanrwydd a chryfder y farchnad swyddi leol.
- Cymuned egnïol ac ymgysylltiol: Mesurau sy'n ymwneud â lefelau gweithgarwch dinesig a chymunedol y trydydd sector a rhwystrau rhag cyfranogi ac ymgysylltu.

## Proffil daearyddol o Gydnerthedd Cymunedol

Gwelir mai Gurnos, Trefechan a Phontsticill ym Merthyr Tudful sydd â'r cydnerthedd cymunedol isaf. Mae 18 o'r 20 MSOA sydd â'r lefelau isaf o gydnerthedd ar yr IAC yn Ne Cymru. Mae llawer o'r ardaloedd sydd â'r cydnerthedd isaf wedi'u lleoli yn y Cymoedd, cymunedau arfordirol ac ar gyrion ardaloedd trefol, ac yn gyffredinol maent i'w gweld mewn ardaloedd sydd ag amddifadedd uchel ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Mae 11 o'r 20 ardal sydd â'r cydnerthedd uchaf (sgôr isaf ar y IAC) wedi'u lleoli yng Nghaerdydd (yn bennaf mewn rhannau canolog o'r ddinas a maestrefi mwy cyfoethog), gyda'r cydnerthedd uchaf yn Llanbedr-y-fro a Gwenfô sy'n cwmpasu rhai o'r ardaloedd gwledig i Orllewin Caerdydd. Mae gan y rhan fwyaf o'r ardaloedd sydd â sgoriau IAC isel lefelau isel o amddifadedd hefyd.

## Lleoliad ardaloedd 'llai cydnerth'

Mae cymunedau 'llai cydnerth' yn cael eu nodi fel ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan anfantais ddeuol:

1. Lefelau uchel o amddifadedd
2. Heriau o ran seilwaith cymdeithasol: Ardaloedd sy'n brin o asedau cymunedol a dinesig ac sy'n profi arwahanrwydd cymharol a lefelau isel o gyfranogiad.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019 wedi cael ei ddefnyddio i nodi ardaloedd sydd â lefelau uchel o amddifadedd. Mae Indecs Asedau Cymunedol (IAC), sydd newydd gael ei ddatblygu, wedi cael ei ddefnyddio i nodi ardaloedd sydd â heriau o ran seilwaith cymdeithasol.

Mae ardaloedd llai cydnerth yn cael eu cysyniadu fel MSOAs yng Nghymru, sydd â lefelau uchel o angen ar yr WCAI ac ar y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019, gyda'r ardaloedd hynny yn y 25% uchaf yng Nghymru (safleoedd 1-102) yn cael eu nodi fel ardaloedd 'llai cydnerth'<sup>1</sup>.

Mae 102 o ardaloedd 'llai cydnerth' ledled Cymru – cyfeirir at y rhain fel LRAau drwy gydol yr adroddiad hwn. Yr Awdurdodau Lleol yn y Cymoedd sy'n cynnwys y gyfran uchaf o LRAau, a nodwyd bod pob un o'r MSOAau ym Mlaenau Gwent, mwy na 70% ym Merthyr Tudful (71.4%) a mwy na thraean yn Rhondda Cynon Taf (35.5%) yn 'llai cydnerth'. Mae'r tri Awdurdod Lleol hyn rhyngddynt yn cynnwys 24.5% o'r holl LRA yng Nghymru. Mae 18.6% arall wedi'u lleoli mewn stadau tai ar wahân yn y ddwy ddinas fawr (Caerdydd ac Abertawe). I'r gwrthwyneb, ceir crynodiadau cymharol isel o LRAau mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol yng Ngogledd a

<sup>1</sup> Gweler Atodiad E: Methodoleg ar gyfer Cynhyrchu Indecs Asedau Cymunedol ar gyfer Cymru. *Cam 13 Nodi mewn ardaloedd llai cydnerth* am ragor o fanylion.

Gorllewin Cymru. Dim ond 12% o'r LRAau a geir mewn ardaloedd gwledig, yn wahanol i Gymru gyfan, lle mae 31.6% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd *Gwledig*.

Mae'r rhan fwyaf o bobl mewn LRA yn byw mewn ardaloedd sy'n cael eu categorio fel 'Bywyd o galedi' yn ôl y Dosbarthiad Ardal Gynnyrch (OAC). Mae'r rhain yn ardaloedd sydd ar gyrion ardaloedd trefol y DU gan mwyaf ac fe'u nodweddir gan lefelau uchel o bobl mewn llety teras, diweithdra uchel, amrywiaeth ethnig isel a lefelau uchel o bobl yn cael eu cyflogi mewn gweithgynhyrchu. Mae 59% o bobl sy'n byw mewn LRA yn byw mewn ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn 'Fywyd o galedi', o'i gymharu â 33% mewn ardaloedd difreintiedig eraill a 33% ledled Cymru.

## Ffeithiau a ffigurau allweddol

### Poblogaeth

Mae **818,494** o bobl yn byw mewn LRA, ac mae **49.1%** ohonynt yn ddynion a **50.9%** yn fenywod. Mae gan LRA boblogaeth gymharol ifanc, gydag ychydig o dan un o bob pump o bobl mewn LRA (19.9%) o dan 16 oed – sy'n uwch na'r cyfartaledd mewn ardaloedd difreintiedig eraill (17.7%) a Chymru gyfan (17.8%).

Mae LRAau wedi gweld cynnydd llai yn y boblogaeth na'r ardaloedd sydd wedi'u meincodi, gyda'r boblogaeth yn aros yn weddol sefydlog rhwng 2001 a 2003 cyn codi'n raddol, er bod hynny yn arafach na'r ardaloedd cymharol.

Mae LRAau yn llai amrywiol o ran ethnigrwydd nag ardaloedd difreintiedig eraill yng Nghymru, gyda chyfran is o bobl yn nodi eu bod yn Wyn heb fod yn Brydeinig (2.2%) neu ddim yn Wyn (4.5%) na'r cyfartaledd ar draws ardaloedd difreintiedig eraill (4.6% a 15.3% yn y drefn honno), ac mae'r proffil ethnig yn debyg i'r cyfartaledd ar draws Cymru gyfan (2.4% a 4.4%).

Mae pobl mewn LRA yn llai tebygol o feddu ar sgiliau Cymraeg na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu lleoliad yr ardaloedd hyn, gyda chrynnodiadau uchel yn y Cymoedd, sy'n Saesneg eu hiaith yn bennaf.

Nodweddir LRA fel rhai sydd â lefelau uwch o aelwydydd un person, aelwydydd sy'n cyd-fyw ac aelwydydd teulu rhieni sengl o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

### Tai

Mae pobl mewn LRA yn fwy tebygol o fyw mewn tai rhent cymdeithasol gyda 26.1% o bobl mewn LRA yn byw mewn tai rhent cymdeithasol, sydd ychydig yn uwch na'r gyfran mewn ardaloedd difreintiedig eraill (20.4%) ac yn sylweddol uwch na'r gyfran ar draws Cymru gyfan (16.5%).

Mae'r pris eiddo cyfartalog mewn LRA yn is ar gyfer pob math o eiddo o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn is na mewn ardaloedd eraill o amddifadedd tebyg ar gyfer pob math o dai ar wahân i dai sengl.

### Yr Economi

Mae llawer llai o swyddi lleol ar gael mewn LRA o'i gymharu ag ardaloedd difreintiedig eraill, gyda 47 o swyddi am bob 100 oedolyn oed gweithio mewn LRA. Mae hyn ychydig dros hanner y cyfartaledd ar draws ardaloedd difreintiedig eraill (90 i bob 100 oedolyn oed gweithio) ac yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar draws Cymru gyfan (69 am bob 100).

Mae swyddi sydd ar gael mewn LRA yn llai tebygol o fod yn rhai sgiliedig iawn (27%) nag mewn ardaloedd difreintiedig eraill (30.5%) a Chymru gyfan (35.8%).

Mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn incwm aelwydydd cyffredinol is, mae incwm blyneddol cyfartalog aelwydydd mewn LRA dros £3,800 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar ôl ystyried costau tai.

## Cyflogaeth a diweithdra

Mae diweithdra wedi bod yn amrywio rhwng 2004 a 2022, gyda chynnydd sydyn yn ystod argyfwng ariannol diwedd y 2000au a'r pandemig Covid-19 diweddar. Ym mis Mehefin 2022, roedd diweithdra yn 4.8% mewn LRAau, 5.6% mewn ardaloedd difreintiedig eraill a 3.3% yng Nghymru gyfan.

Mae pobl mewn LRAau yn fwy tebygol o brofi diweithdra ehangach (pobl yn cael eu heithrio'n anwirfoddol o'r farchnad lafur oherwydd iechyd gwael neu gyfrifoldebau gofalu) nag ardaloedd difreintiedig eraill a Chymru gyfan. Mae pobl mewn LRAau yn llawer mwy tebygol o fod yn y grŵp *dim gofynion gwaith* Credyd Cynhwysol (sy'n daladwy i'r rheini sy'n ddi-waith oherwydd salwch tymor hir neu rwymedigaethau gofalu) (7.1%) nag ar draws ardaloedd difreintiedig eraill (5.9%) a Chymru gyfan (4.6%).

## Iechyd

Gall pobl sy'n byw mewn LRAau ddisgwyl byw bywydau byrrach a llai iach na'r cyfartaledd ledled Cymru, gyda disgwyliad oes o 76 mlynedd a disgwyliad oes iach o 64 oed, o'i gymharu â 78 a 68 mlynedd yn y drefn honno ledled Cymru.

Mae'r gyfradd marwolaethau gyffredinol ychydig yn uwch mewn LRAau (1,188 am bob 100,000 o bobl) nag ar draws ardaloedd difreintiedig eraill (1,141 am bob 100,000 o bobl) a Chymru gyfan (1,039 am bob 100,000 o bobl).

Mae gan fwy nag un o bob pedwar (25.9%) o bobl mewn LRAau salwch tymor hir, sy'n uwch nag ar draws ardaloedd difreintiedig eraill (22%) a Chymru gyfan (22.7%).

Adlewyrchir hyn yn y gyfran gymharol uchel o oedolion o oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau oherwydd iechyd gwael ac anabledd. Mae gan LRAau gyfradd hawlwyr PIP llawer uwch nag ar draws yr ardaloedd meincnod, gydag 14.8% o oedolion o oedran gweithio mewn LRAau yn derbyn PIP, o'i gymharu ag 11.4% mewn ardaloedd difreintiedig eraill ac 10.7% ledled Cymru gyfan. O'r rhain, mae tua un rhan o dair yn cael y budd-daliadau hyn oherwydd cyflyrau iechyd meddwl.

## Troseddu

Mae cyfraddau troseddu LRAau yn uwch yn gyffredinol (129.6 am bob 1,000) na Chymru gyfan (100 am bob 1,000), patrwm sy'n cael ei ailadrodd ar draws yr holl brif fathau o droseddau. Fodd bynnag, mae gan yr LRAau lefelau is o droseddau allweddol nag ardaloedd difreintiedig eraill ar gyfartaledd. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'u lleoliad mewn ardaloedd mwy ymylol (oddi wrth ganol trefi ac ardaloedd bywyd nos lle mae gwahanol fathau o droseddau'n fwy cyffredin).

## Addysg a sgiliau

Nid oes gan fwy nag un o bob tri oedolyn yn yr LRAau unrhyw gymwysterau (34.2%), sy'n uwch na'r cyfartaledd mewn ardaloedd difreintiedig eraill (27.7%) a Chymru gyfan (25.9%). I'r gwrthwyneb, dim ond 16% o oedolion mewn LRAau sydd â gradd neu gymwysterau uwch, ac mae hyn yn is o lawer na'r cyfartaledd mewn ardaloedd difreintiedig eraill (21.7%) a Chymru (24.5%).

Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y deilliannau addysgol i blant – mae lefelau cyrhaeddiad ymysg plant ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn is yn yr LRAau na'r cyfartaledd ledled Cymru. Mae gan LRAau lefelau cyrhaeddiad is ymysg plant ysgolion uwchradd na'r ddwy ardal ddifreintiedig arall yng Nghymru. Mae hyn wedi arwain at gyfran is o oedolion ifanc yn mynd i Addysg Uwch, gyda dim ond 23.2% o'r rhai sy'n gadael Cyfnod Allweddol 4 mewn LRAau yn mynd i Addysg Uwch, o'i gymharu â 23.8% mewn ardaloedd difreintiedig eraill a 29.9% ledled Cymru gyfan.

## Mynediad a gwasanaethau

Mae cartrefi mewn LRAau yn llai tebygol o fod yn berchen ar gar na'r cyfartaledd ar draws Cymru – nid oes gan 31.7% o aelwydydd LRA gar na fan, o'i gymharu â 22.9% ledled Cymru.

### **Anghenion cymunedol a seilwaith cymdeithasol**

Mae gan LRAau lai o lawer o fudiadau trydydd sector - 325 am bob 100,000 o'r boblogaeth, ac ymddiriedolwyr elusennau - 838 am bob 100,000 (o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (459 a 1,366 yn y drefn honno). Mae hefyd yn amlwg bod LRAau yn perfformio'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol a'r cyfartaledd ar gyfer ardaloedd difreintiedig eraill o ran denu cyllid gan y Loteri Genedlaethol, sefydliadau a chyllidwyr grantiau, ac maent wedi bod yn llai llwyddiannus o ran datblygu busnesau sy'n eiddo i'r gymuned.



## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y nodweddion a'r heriau economaidd-gymdeithasol mewn cymunedau 'llai cydnerth' ledled Cymru. Mae cymunedau 'llai cydnerth' yn cael eu nodi fel ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan anfantais ddeuol:

1. Lefelau uchel o amddifadedd
2. Heriau o ran seilwaith cymdeithasol: Ardaloedd sy'n brin o asedau cymunedol a dinesig ac sy'n profi arwahanrwydd cymharol a lefelau isel o gyfranogiad.

Defnyddiwyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019 i nodi ardaloedd sydd â lefelau uchel o amddifadedd. Mae Indecs Asedau Cymunedol (IAC), sydd newydd gael ei ddatblygu, wedi cael ei ddefnyddio i nodi ardaloedd sydd â heriau o ran seilwaith cymdeithasol.

Mae ardaloedd llai cydnerth yn cael eu cysyniadu fel MSOAs yng Nghymru, sydd â lefelau uchel o angen ar yr WCAI ac ar y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019, gyda'r ardaloedd hynny yn y 25% uchaf yng Nghymru (safleoedd 1-102) yn cael eu nodi fel ardaloedd 'llai cydnerth'.

*Gweler Atodiad E: Methodoleg ar gyfer Cynhyrchu Mynegai Cydnerthedd Cymunedol i Gymru – Cam 13 Nodi mewn ardaloedd llai gwydn i gael rhagor o fanylion am sut mae sgôr gyfun WIMD a WCRI wedi cael ei greu.*

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar anghenion economaidd-gymdeithasol yr ardaloedd 'llai cydnerth' hyn. Edrychir ar y themâu canlynol:

1. Cyflwyniad i'r Mynegai Cydnerthedd Cymunedol
2. Lleoliad ardaloedd 'llai cydnerth'
3. Ffactor
4. Yr Economi
5. Amddifadedd
6. Iechyd
7. Troseddu
8. Addysg a Sgiliau
9. Mynediad a Thrafnidiaeth
10. Anghenion cymunedol a seilwaith cymdeithasol

Cyflwynir y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn yr adroddiad ar gyfer ardaloedd 'llai cydnerth' – y sgôr cyfartalog cyfanredol ar gyfer pob un o'r 102 LRA. Mae'r ffigurau ar gyfer LRAau yn cael eu meincnodi yn erbyn y cyfartaledd cenedlaethol a'r cyfartaledd ar draws 'ardaloedd difreintiedig eraill'. Mae 'ardaloedd difreintiedig eraill' yn ardaloedd sydd wedi'u rhestru yn yr 20% mwyaf difreintiedig ar Fynegeion Amddifadedd Cymru 2019, nad oeddent wedi'u nodi fel LRAau.

Mae pob set ddata sydd yn yr adroddiad yn cael eu cyfuno o ardaloedd daearyddol ystadegol safonol (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol a Wardiau) ar gyfer LRAau unigol, 'ardaloedd difreintiedig eraill' ac ardaloedd daearyddol cenedlaethol. Defnyddir y tabl chwilio Ardal Allbwn i MSOA<sup>2</sup> i ddsrannu a chyfuno data i'r ardaloedd daearyddol hyn.

Mae Atodiad B yn rhoi manylion pob un o'r dangosyddion sylfaenol a archwiliwyd yn yr adroddiad.

Byddwn yn edrych ar ddsbarthiad daearyddol IAC a'r berthynas rhwng cydnerthedd cymunedol ac amddifadedd yn yr adran nesaf, cyn mynd ymlaen i edrych yn fanylach ar yr heriau economaidd-gymdeithasol a wynebir yn yr ardaloedd a nodwyd fel rhai 'llai cydnerth'.

## Indecs Asedau Cymunedol

<sup>2</sup> <https://geoportal.statistics.gov.uk/datasets/ons::output-area-to-lsoa-to-msoa-to-local-authority-district-december-2017-lookup-with-area-classifications-in-great-britain/explore>

Nod Indecs Asedau Cymunedol (IAC) yw nodi ardaloedd sy'n wynebu heriau sy'n gysylltiedig â seilwaith cymunedol a dinesig gwael, arwahanrwydd cymharol a lefelau isel o gyfranogiad, drwy gyfuno cyfres o ddangosyddion, wedi'u cysyniadu o dan dri maes:

- Asedau Dinesig: Mae'n mesur presenoldeb asedau cymunedol, dinesig, addysgol a diwylliannol allweddol yn yr ardal ac yn agos ati. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau ieuenctid, llyfrgelloedd, parciau cyhoeddus, canolfannau cymunedol, pyllau nofio, neuaddau pentref, asedau sy'n eiddo i'r gymuned – cyfleusterau sy'n darparu pethau i'w gwneud a mannau cyfarfod yn aml, heb fawr o gost, sy'n bwysig i ba mor gadarnhaol y mae cymuned yn teimlo am ei hardal.
- Natur gysylltiedig: Mae'n mesur y cysylltedd, mewn termau ffisegol – pa mor hawdd yw cael gafael ar wasanaethau allweddol fel gwasanaethau iechyd, cysylltedd digidol, cysylltedd cymdeithasol gyda mesur o unigrwydd, mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat a chryfder y farchnad swyddi leol.
- Cymuned egniol ac ymgysylltiol: Mae'n mesur lefelau cyfranogiad gweithredol mewn bywyd cymunedol a dinesig, lefelau ymgysylltu, gwirfoddoli, canfyddiadau o berthnasoedd cymdeithasol a chryfder y trydydd sector yn lleol.

Mae'r IAC wedi cael ei greu gan ddefnyddio'r un fethodoleg, strwythur parth ac uned ddaearyddol o ddadansoddi ag a fabwysiadwyd yn niweddariad 2021 y Indecs Anghenion Cymunedol ar gyfer Lloegr (ECNI 2021)<sup>3</sup>; ac mae'n defnyddio'r un dangosyddion cydrannau lle bo hynny'n bosibl. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r dangosyddion economaidd-gymdeithasol allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y IAC (mae disgrifiad manwl o'r dangosyddion hyn ar gael yn Atodiad D).

---

<sup>3</sup> gweler <https://localtrust.org.uk/policy/left-behind-neighbourhoods/>

Dangosydd	Ffynhonnell	Dyddiad
<b>Asedau Dinesig</b>		
CA1: Dwysedd asedau mannau cymunedol	AddressBase	Gorff. 2021
CA2: Dwysedd asedau addysgol	AddressBase	Gorff. 2021
CA3a: Dwysedd asedau chwaraeon a hamdden (AddressBase)	AddressBase	Gorff. 2021
CA4: Dwysedd asedau diwylliannol	AddressBase	Gorff. 2021
CA5a: Asedau gwyrdd (dwysedd)	AddressBase	Gorff. 2021
CA5b: Asedau gwyrdd (Ardal o fannau gwyrdd cyhoeddus)	Arolwg Ordans	Ebrill 2020
CA6: Asedau adwerthu	AddressBase	Gorff. 2021
CA7a: Asedau sy'n eiddo i'r gymuned	Renaisi/ Plunkett Foundation/Locality	2021
<b>Natur gysylltiedig</b>		
CN1a: Amser teithio i wasanaethau allweddol ar drafndiaeth gyhoeddus/cerdded	Llywodraeth Cymru	2019
CN1b: Pellter cyfartalog i'r Parc agosaf, Gardd Gyhoeddus, neu Faes Chwarae (m)	Arolwg Ordans	Ebrill 2020
CN2a: Dwysedd swyddi yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith	Cofrestr Busnesau ac Arolwg Cyflogaeth (BRES)	2019
CN2b: Dwysedd swyddi yn yr ardal leol	Cofrestr Busnesau ac Arolwg Cyflogaeth (BRES)	2019
CN3: Aelwydydd heb gar	Cyfrifiad 2011	2011
CN4a: Cyflymderau llwytho i lawr band eang	OfCom	2020
CN4b: Cyflymder llwytho i fyny band eang	OfCom	2020
CN5: Unigrwydd (Pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain)	Cyfrifiad 2011	2011
CN5b: Unigrwydd (Mynegai Unigrwydd – Presgripsiynau Meddygon Teulu ar gyfer Unigrwydd)	Campws Gwyddoniaeth Data y Swyddfa Ystadegau Gwladol / y GIG / y Groes Goch	2019
CN4c: Unigrwydd (lefelau hunan-adrodd o unigrwydd)	Arolwg Cenedlaethol Cymru	2016/17 a 2019/20
<b>Cymuned Egniol ac Ymgysylltiol</b>		
AE1: Y nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau lleol	Y Comisiwn Etholiadol	2017
AE2a: Cyfranogiad dinesig (Hunan-adrodd ar gyfranogiad cymunedol a dinesig)	Arolwg Cenedlaethol Cymru/Dosbarthiad Ardal Gynnyrch 2011: ONS	2014/15, 2016/17, 2017/18, 2018/19 a 2019/20
AE2b: Cryfder cysylltiadau cymdeithasol lleol	Arolwg Cenedlaethol Cymru/Dosbarthiad Ardal Gynnyrch 2011: ONS	2012/13, 2013/14, 2016/17, 2018/19
AE3: Cyfranogiad diwylliannol a hamdden	Arolwg Cenedlaethol Cymru/Dosbarthiad Ardal Gynnyrch 2011: ONS	2014/15, 2017/18, 2018/19 a 2019/20
AE4: Sefydliadau trydydd sector	Comisiwn Elusennau, Co-operatives UK, Tŷ'r Cwmnïau, gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol	2021
AE5: Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol	Y Loteri Genedlaethol (drwy 360 Giving)	2004-2021
AE6: Cyllid grant y pen gan gyllidwyr grantiau mawr	Data Grant 360 Giving	Hyd at 2021
AE7a: Benthyciadau i fusnesau bach a chanolig gan fanciau	UK Finance	Mehfin 2020
AE7b: Busnesau bach: Unedau Busnes Lleol gyda 0-4 o weithwyr	Cofrestr Busnesau Ryngadrannol (IDBR)	2020
AE7c: Busnesau Cynhyrchiol	Deall Lleoedd Cymru	2021
AE8 Ymddiriedolwyr elusennau	Deall Lleoedd Cymru	2021

Cymerwyd y camau canlynol i gynhyrchu'r index cyfun.

- 1) Trosi pob un o'r dangosyddion i lefel MSOA.

- 2) Defnyddio crebachiad<sup>4</sup> i wella cadernid y dangosyddion.
- 3) Sicrhau bod pob dangosydd yn “pwyntio i’r un cyfeiriad”.
- 4) Cynhyrchu dangosyddion cyfansawdd: Cyfuno rhai o’r dangosyddion yn y tabl uchod, lle maent yn mesur agweddau ar yr un peth.
- 5) Safoni: Symud dangosyddion i’r un raddfa fel y gellir eu cyfuno’n feysydd.
- 6) Dangosyddion pwysoli: Defnyddir techneg ystadegol o’r enw Dadansoddiad o’r Ffactor Tebygolrwydd Mwyaf<sup>5</sup> i bennu pwysau’r dangosyddion ym mhob maes/is-faes.
- 7) Cyfuno dangosyddion i ffurfio is-feysydd a meysydd.
- 8) Safoni’r parthau gan ddefnyddio trawsnewidiad esbonyddol<sup>6</sup> i reoli effeithiau canslo.
- 9) Cyfuno’r meysydd safonol i gynhyrchu Indecs Asedau Cymunedol (IAC).
- 10) Cyfuno â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i nodi ardaloedd ‘llai cydnerth’.

Disgrifir y camau hyn yn fanwl yn Atodiad E.

## Proffil daearyddol o Gydnerthedd Cymunedol

Mae’r adran hon yn edrych ar ba ardaloedd sydd â’r lefelau uchaf o heriau o ran seilwaith cymdeithasol a’r berthynas rhwng cydnerthedd cymunedol ac amddifadedd.

Mae’r tabl isod yn dangos yr 20 MSOA yng Nghymru sydd â’r sgoriau IAC uchaf. Cyflwynir y data ochr yn ochr â Safle Cyfartalog Safle Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Safle cyfartalog safleoedd LSOA ar draws pob MSOA yng Nghymru – lle mae 1 = MSOA mwyaf difreintiedig a 410 = MSOA lleiaf difreintiedig).

---

<sup>4</sup>Gweler Atodiad H am fanylion y dull gweithredu hwn

<sup>5</sup>Gweler Atodiad F am fanylion y dull gweithredu hwn

<sup>6</sup>Gweler Atodiad G am fanylion y dull gweithredu hwn

MSOA	Awdurdod Lleol	Safle IAC	Sgôr IAC	Safle Cyfartalog Safle WIMD
Gurnos, Trefechan & Pontsticill	Merthyr Tudful	1	190.81	10
Treherbert	Rhondda Cynon Taf	2	190.51	29
Abersychan	Torfaen	3	180.39	93
Cefn Mawr	Wrecsam	4	171.22	134
Gorllewin Llaneirwg	Caerdydd	5	163.83	4
Dyffryn a Maesglas	Casnewydd	6	153.69	51
Penrhiw-ceibr	Rhondda Cynon Taf	7	152.79	23
Betws	Casnewydd	8	150.45	18
Rasa a Chendl	Blaenau Gwent	9	149.19	125
Corneli	Pen-y-bont ar Ogwr	10	147.68	118
Llanedern	Caerdydd	11	145.45	82
Gogledd Abertyleri a Chwmtyleri	Blaenau Gwent	12	145.19	60
Trefynwy a Wyesham	Sir Fynwy	13	144.36	273
Y Rhws a'r Maes Awyr	Bro Morgannwg	14	143.84	349
Gorllewin Caerau	Caerdydd	15	143.67	22
Dwyrain Rhisga	Caerffili	16	143.10	181
De Bwcle	Sir y Fflint	17	142.28	268
Sirhywi	Blaenau Gwent	18	141.49	71
Penderi	Abertawe	19	140.67	6
Hen Golwyn a Llanddulas	Conwy	20	140.24	205

Ffynhonnell: OCSI 2022

Mae yna ddsbarthiad daearyddol rhesymol, gyda 14 o'r 22 Awdurdod Lleol sy'n cynnwys o leiaf un MSOA ymysg yr 20 uchaf ar yr IAC. Fodd bynnag, mae 18 o'r 20 MSOAau yn Ne Cymru. Nodir mai Gurnos, Trefechan a Phontsticill ym Merthyr Tudful sydd â'r anghenion uchaf yn gyffredinol (cydnerthedd isaf). Mae llawer o'r ardaloedd sydd â'r cydnerthedd isaf yn y Cymoedd, cymunedau arfordirol ac ar gyrion ardaloedd trefol. Mae'r rhan fwyaf o'r 20 uchaf hefyd yn gymharol uchel yn WIMD – gydag 11 o'r 20 safle uchaf ymysg yr 20% MSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru. I'r gwrthwyneb, dim ond un MSOA sydd ymysg yr 20 uchaf – Y Rhws a'r Maes Awyr – ymysg yr 20% MSOA lleiaf difreintiedig.

Mae'r tabl isod yn dangos yr 20 MSOA sydd â'r safle IAC isaf (lle mae 1 yn golygu'r cydnerthedd isaf a 410 y cydnerthedd uchaf). Mae'r data hefyd yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â Safle Cyfartalog Safle Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

MSOA	Awdurdod Lleol	Safle IAC	Safle Cyfartalog Safle WIMD
Llanbedr-y-fro a Gwenfô	Bro Morgannwg	410	375
Ridgeway a Glasllwch	Casnewydd	409	361
Aber-y-Fôr a Llandŵ	Bro Morgannwg	408	378
Pontcanna	Caerdydd	407	291
Creigiau, Pentyrch a Sain Ffagan	Caerdydd	406	401
Maerun	Casnewydd	405	358
Treganna	Caerdydd	404	127
Y Mynydd Bychan	Caerdydd	403	398
Gogledd y Dref, Prifysgol a Rhos-ddu	Wrecsam	402	321
Gogledd Cathays	Caerdydd	401	246
De Pen-y-lan	Caerdydd	400	271
Parc Victoria	Caerdydd	399	316
Sblot	Caerdydd	398	13
Y Rhath	Caerdydd	397	191
Pen-y-fai, Trelales a Merthyr Mawr	Pen-y-bont ar Ogwr	396	385
Rhuddlan a Bodelwyddan	Sir Ddinbych	395	279
Bae Caerdydd	Caerdydd	394	372
Gresffordd, Marford a'r Orsedd	Wrecsam	393	377
Llanfairpwllgwyngyll a Phorthaethwy	Ynys Môn	392	370
Llandaf a Danescourt	Caerdydd	391	375


Ffynhonnell: OCSI 2022

Mae 11 o'r 20 ardal sydd â'r cydnerthedd uchaf (sgôr isaf ar y IAC) wedi'u lleoli yng Nghaerdydd (yn bennaf mewn rhannau canolog o'r ddinas a maestrefi mwy cyfoethog), gyda'r cydnerthedd uchaf yn Llanbedr-y-fro a Gwenfô sy'n cwmpasu rhai o'r ardaloedd gwledig i Orllewin Caerdydd. Mae gan y rhan fwyaf o'r ardaloedd sydd â sgoriau IAC isel lefelau isel o amddifadedd hefyd, gydag 11 o'r 20 ymysg yr 20% lleiaf difreintiedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a dim ond un ardal ymysg yr 20 uchaf. Yr eithriad nodedig yw Sblot yng Nghaerdydd – mae'r ardal hon wedi'i lleoli'n gymharol agos at ganol y ddinas ac mae'n sgorio'n arbennig o uchel o ran dwysedd Asedau Dinesig.

## Y berthynas rhwng cydnerthedd cymunedol ac amddifadedd

Mae'r siart isod yn cymharu lefelau cyfartalog o gydnerthedd cymunedol a fesurir yn erbyn lefelau amddifadedd cyffredinol. Mae'r siart yn dangos lefel cydnerthedd cymunedol (ar sail sgôr IAC) ar gyfer MSOAau wedi'u grwpio'n fandiau 10 y cant, neu 'ddegraddau', yn seiliedig ar eu safle ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.

### Sgôr Cydnerthedd Cymunedol (IAC 2021) yn ôl degradd amddifadedd (MIMD 2019)




Ffynhonnell: OCSI/Llywodraeth Cymru

Mae'r siart yn dangos bod perthynas gref rhwng amddifadedd a chydnerthedd cymunedol, gyda'r 10% o MSOAau â'r lefelau uchaf o amddifadedd â'r sgôr IAC uchaf ar gyfartaledd (96.9). Mae'r berthynas hon yn gyson ar draws y grwpiau degradd h.y. po uchaf yw lefel yr amddifadedd, y lleiaf yw lefel y cydnerthedd cymunedol cyffredinol.

Yn gyffredinol, mae cydberthynas fach ond arwyddocaol o .451 (Pearson) rhwng yr IAC a Sgôr WIMD 2019. Fodd bynnag, mae nifer fawr o ardaloedd lle nad yw'r berthynas hon mor gryf.

### Y berthynas rhwng safle WIMD 2019 a safle IAC ar gyfer MSOAau yng Nghymru



Ffynhonnell: OCSI/Llywodraeth Cymru

Mae'r siart uchod yn dangos sgôr WIMD a IAC ar gyfer pob MSOA unigol yng Nghymru. Mae'r siart yn dangos, er bod perthynas gadarnhaol rhwng cydnerthedd cymunedau a lefelau amddifadedd, mae nifer fawr o ardaloedd yn cael eu hystyried yn rhai sydd â lefelau isel o gydnerthedd cymunedol a lefelau isel o amddifadedd a vice versa.

Mae 7 MSOA (1.7%) ymysg yr 20% mwyaf difreintiedig ar y Mynegai Amddifadedd Lluosog sy'n cael eu rhestru ymysg yr 20% lleiaf difreintiedig o ran cydnerthedd cymunedol:

- Caerdydd - Sblot
- Caerdydd - Plasnewydd
- Caerdydd - De Grangetown
- Casnewydd - Stow Hill
- Caerdydd - Gogledd Grangetown
- Caerdydd - Adamsdown
- Caerdydd - De Glan yr Afon

I'r gwrthwyneb, mae 5 MSOA (1.2%) ymysg yr 20% lleiaf difreintiedig ar y Mynegai Amddifadedd Lluosog sy'n cael eu rhestru ymysg yr 20% mwyaf difreintiedig o ran cydnerthedd cymunedol:

- Rhondda Cynon Taf - Gorllewin Pentre'r Eglwys
- Caerdydd - Pontprennau
- Bro Morgannwg - Llanilltud Fawr
- Bro Morgannwg – Y Rhws a'r Maes Awyr
- Sir Gaerfyrddin - Swiss Valley a Llangennech

## Lleoliad ardaloedd 'llai cydnerth'

Mae unrhyw Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA) sydd ymysg y 25% uchaf yng Nghymru ar yr IAC a oedd hefyd yn cynnwys o leiaf un Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) ymysg y 10% mwyaf difreintiedig ar WIMD 2019 wedi cael ei nodi fel ardal 'llai cydnerth'.

Mae'r tabl isod yn rhestru pob un o'r 102 ardal 'llai cydnerth' yng Nghymru – gyda data cryno gan IAC gan gynnwys safle IAC a'r ffactorau sy'n ysgogi angen.



Enw LRA	Enw LAD	Safle LRA	Safle IAC	Ysgogydd Angen
Gurnos, Trefechan & Pontsticill	Merthyr Tudful	1	1	Egñiol/Ymgysylltiol
Gorllewin Llaineirwg	Caerdydd	2	5	Egñiol/Ymgysylltiol
Townhill	Abertawe	3	23	Egñiol/Ymgysylltiol
Treherbert	Rhondda Cynon Taf	4	2	Natur gysylltiedig
Penderi	Abertawe	5	19	Egñiol/Ymgysylltiol
Dwyrain Trelái	Caerdydd	6	47	Egñiol/Ymgysylltiol
Betws	Casnewydd	7	8	Egñiol/Ymgysylltiol
Ringland	Casnewydd	8	29	Egñiol/Ymgysylltiol
Penrhiwceibr	Rhondda Cynon Taf	9	7	Egñiol/Ymgysylltiol
Gorllewin Caerau	Caerdydd	10	15	Asedau Dinesig
Dyffryn a Maesglas	Casnewydd	11	6	Asedau Dinesig
Trowbridge	Caerdydd	12	43	Egñiol/Ymgysylltiol
Abersychan	Torfaen	13	3	Asedau Dinesig
De Llanelli	Sir Gaerfyrddin	14	45	Natur gysylltiedig
Gorllewin Pontnewydd a'r Ddraenen	Torfaen	15	28	Egñiol/Ymgysylltiol
Gogledd Abertyleri a Chwmtyleri	Blaenau Gwent	16	12	Natur gysylltiedig
Parc Caia	Wrecsam	17	92	Egñiol/Ymgysylltiol
Cefn Mawr	Wrecsam	18	4	Natur gysylltiedig
De Abertyleri a Llanhilledd	Blaenau Gwent	19	26	Natur gysylltiedig
Sandfields	Castell-nedd Port Talbot	20	30	Asedau Dinesig
Rhymni, Pontlotyn ac Abertyswg	Caerffili	21	48	Natur gysylltiedig
Llanedern	Caerdydd	22	11	Asedau Dinesig
Pillgwenlli a'r Dociau	Casnewydd	23	211	Natur gysylltiedig
Sirhywi	Blaenau Gwent	24	18	Natur gysylltiedig
Rasa a Chendl	Blaenau Gwent	25	9	Asedau Dinesig
Caerau	Pen-y-bont ar Ogwr	26	90	Egñiol/Ymgysylltiol
Corneli	Pen-y-bont ar Ogwr	27	10	Asedau Dinesig
Gellideg a'r Dref	Merthyr Tudful	28	55	Natur gysylltiedig
Caerdybi	Ynys Môn	29	33	Asedau Dinesig
Aberaman	Rhondda Cynon Taf	30	31	Egñiol/Ymgysylltiol
Glyncorwg a Blaengwynfi	Castell-nedd Port Talbot	31	114	Natur gysylltiedig
Y Blaenau a Nant-y-glo	Blaenau Gwent	32	51	Natur gysylltiedig
Tylorstown	Rhondda Cynon Taf	33	104	Natur gysylltiedig
Llansawel	Castell-nedd Port Talbot	34	85	Egñiol/Ymgysylltiol
Tredeggar Newydd a Chwm Darren	Caerffili	35	72	Egñiol/Ymgysylltiol
Ystrad a Llwynypia	Rhondda Cynon Taf	36	69	Egñiol/Ymgysylltiol
Gogledd Ddwyrain y Fflint	Sir y Fflint	37	56	Asedau Dinesig
Bynea a Llwynhendy	Sir Gaerfyrddin	38	24	Asedau Dinesig
Gogledd y Rhyl	Sir Ddinbych	39	141	Natur gysylltiedig
Bae Cinmel a Thywyn	Conwy	40	38	Asedau Dinesig
Dwyrain Caerau	Caerdydd	41	237	Egñiol/Ymgysylltiol
Trefddyn a Phen-y-garn	Torfaen	42	131	Natur gysylltiedig
Dwyrain Rhisga	Caerffili	43	16	Egñiol/Ymgysylltiol
De Orllewin y Rhyl	Sir Ddinbych	44	181	Egñiol/Ymgysylltiol
Aberpennar	Rhondda Cynon Taf	45	57	Natur gysylltiedig
Rhosllanerchrugog a De Johnstown	Wrecsam	46	36	Natur gysylltiedig

Ynysowen, Troedyrhiw a Bedlinog	Merthyr Tudful	47	53	Natur gysylltiedig
De Glan yr Afon	Caerdydd	48	339	Natur gysylltiedig
Tredegar a Georgetown	Blaenau Gwent	49	34	Natur gysylltiedig
Treffynnon a Bagillt	Sir y Fflint	50	32	Natur gysylltiedig
Doc Penfro	Sir Benfro	51	70	Asedau Dinesig
Gibbonsdown	Bro Morgannwg	52	83	Egñiol/Ymgysylltiol
Trefynwy a Wyesham	Sir Fynwy	53	13	Natur gysylltiedig
Hen Golwyn a Llanddulas	Conwy	54	20	Asedau Dinesig
Clydach a Mawr	Abertawe	55	27	Asedau Dinesig
Nant-y-moel, Bro Ogwr a Melin Ifan Ddu	Pen-y-bont ar Ogwr	56	59	Egñiol/Ymgysylltiol
Bargoed	Caerffili	57	86	Egñiol/Ymgysylltiol
Gogledd y Fenni	Sir Fynwy	58	37	Natur gysylltiedig
Gogledd Llanrhymni	Caerdydd	59	74	Egñiol/Ymgysylltiol
Adamsdown	Caerdydd	60	343	Natur gysylltiedig
Llanbradach a Phenyrheol	Caerffili	61	35	Asedau Dinesig
De Bwcle	Sir y Fflint	62	17	Egñiol/Ymgysylltiol
Glynrhedynog a Maerdy	Rhondda Cynon Taf	63	158	Natur gysylltiedig
Gorllewin Aberdaugleddau	Sir Benfro	64	71	Asedau Dinesig
Aberafan	Castell-nedd Port Talbot	65	148	Asedau Dinesig
Y Rhws a'r Maes Awyr	Bro Morgannwg	66	14	Asedau Dinesig
Abergele	Conwy	67	25	Asedau Dinesig
Hirwaun a Rhigos	Rhondda Cynon Taf	68	99	Natur gysylltiedig
Dowlais	Merthyr Tudful	69	60	Egñiol/Ymgysylltiol
De Castell-nedd	Castell-nedd Port Talbot	70	63	Egñiol/Ymgysylltiol
Y Tyllgoed a Greenmeadow	Torfaen	71	22	Asedau Dinesig
Aberbargoed a Gilfach	Caerffili	72	180	Egñiol/Ymgysylltiol
Pengam a Chefn Fforest	Caerffili	73	101	Egñiol/Ymgysylltiol
Gogledd Glynebwy a Glyncoed	Blaenau Gwent	74	61	Natur gysylltiedig
Ravenhill	Abertawe	75	170	Egñiol/Ymgysylltiol
Treharris a Threlewis	Merthyr Tudful	76	39	Egñiol/Ymgysylltiol
Sblot	Caerdydd	77	398	Natur gysylltiedig
Llyswry ac Aber-wysg	Casnewydd	78	162	Egñiol/Ymgysylltiol
Brynmaur	Blaenau Gwent	79	79	Natur gysylltiedig
Hermitage a Whitegate	Wrecsam	80	100	Natur gysylltiedig
Gorllewin Dinbych	Sir Ddinbych	81	129	Natur gysylltiedig
Glandŵr	Abertawe	82	276	Egñiol/Ymgysylltiol
Aberteifi ac Aberporth	Ceredigion	83	46	Natur gysylltiedig
Blaenau Ffestiniog a Thrawsfynydd	Gwynedd	84	50	Natur gysylltiedig
Gorllewin Tonypanyd a Chwm Clydach	Rhondda Cynon Taf	85	127	Natur gysylltiedig
De Glynebwy a Chwm	Blaenau Gwent	86	91	Natur gysylltiedig
Dwyrain Aberdaugleddau	Sir Benfro	87	80	Asedau Dinesig
Llanilltud Fawr	Bro Morgannwg	88	21	Asedau Dinesig
Cwmbrân	Torfaen	89	216	Natur gysylltiedig
De Cil-y-coed	Sir Fynwy	90	41	Asedau Dinesig
De Llanrhymni	Caerdydd	91	121	Egñiol/Ymgysylltiol
Cwm Aber	Caerffili	92	146	Egñiol/Ymgysylltiol
Gorllewin Porth	Rhondda Cynon Taf	93	202	Natur gysylltiedig
Dwyrain Maesteg	Pen-y-bont ar Ogwr	94	133	Asedau Dinesig
Tref Castell-nedd	Castell-nedd Port Talbot	95	224	Natur gysylltiedig
De'r Drenewydd	Powys	96	217	Egñiol/Ymgysylltiol

Rhydaman a Betws	Sir Gaerfyrddin	97	67	Asedau Dinesig
Ystradgynlais a Tawe Uchaf	Powys	98	65	Natur gysylltiedig
Gorllewin Trelái	Caerdydd	99	76	Asedau Dinesig
Tremorfa a Phengam	Caerdydd	100	322	Asedau Dinesig
De Treforys	Abertawe	101	128	Asedau Dinesig
Beddau a Thynant	Rhondda Cynon Taf	102	42	Egñiol/Ymgysylltiol


Mae'r siart isod yn dangos nifer a chanran yr LRAau ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Awdurdod Lleol	Nifer yr LRAau	% o'r holl MSOAau ym mhob ALI a nodwyd fel LRA	% o'r holl LRAau yng Nghymru
Blaenau Gwent	9	100.0%	8.8%
Pen-y-bont ar Ogwr	4	21.1%	3.9%
Caerffili	8	33.3%	7.8%
Caerdydd	13	27.1%	12.7%
Sir Gaerfyrddin	3	12.0%	2.9%
Ceredigion	1	11.1%	1.0%
Conwy	3	20.0%	2.9%
Sir Ddinbych	3	20.0%	2.9%
Sir y Fflint	3	15.0%	2.9%
Gwynedd	1	5.9%	1.0%
Ynys Môn	1	11.1%	1.0%
Merthyr Tudful	5	71.4%	4.9%
Sir Fynwy	3	27.3%	2.9%
Castell-nedd Port Talbot	6	31.6%	5.9%
Casnewydd	5	25.0%	4.9%
Sir Benfro	3	18.8%	2.9%
Powys	2	10.5%	2.0%
Rhondda Cynon Taf	11	35.5%	10.8%
Abertawe	6	19.4%	5.9%
Bro Morgannwg	3	20.0%	2.9%
Torfaen	5	38.5%	4.9%
Wrecsam	4	22.2%	3.9%


Ffynhonnell: OCSI 2022

Yr Awdurdodau Lleol yn y Cymoedd sy'n cynnwys y gyfran uchaf o LRA, a nodwyd bod pob un o'r MSOAau ym Mlaenau Gwent, mwy na 70% ym Merthyr Tudful (71.4%) a mwy na thraean yn Rhondda Cynon Taf (35.5%) yn 'llai cydnerth'. Mae'r tri Awdurdod Lleol hyn rhyngddynt yn cynnwys 24.5% o'r holl LRA yng Nghymru. I'r gwrthwyneb, ceir crynodiadau cymharol isel o LRAau mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol yng Nghymru – gydag un yn Ynys Môn, Ceredigion a Gwynedd. Mae hyn yn syndod gan fod yr Awdurdodau Lleol hyn yn cynnwys pcedi gyda lefelau cymharol uchel o amddifadedd, yn enwedig o amgylch llawer o'r cymunedau arfordirol yng Ngogledd a Gorllewin Cymru.






### LRau yn Ne Cymru



### LRau yng Ngogledd Cymru



## LRAu erail




Mae LRAu yn Ne Cymru wedi'u lleoli yn y Cymoedd a chymdogaethau ymylol prif ardaloedd trefol Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe, yn ogystal â rhai pocedi yn nhrefi Llanelli, Pen-y-bont ar Ogwr, y Barri a Phort Talbot.

Mae'r LRAau yng Ngogledd Cymru i'w gweld o amgylch Arfordir y Gogledd (Abergele, y Rhyl, Tywyn), ceg Afon Dyfrdwy (Fflint a Threffynnon) ac o gwmpas Wrecsam.

Mae cyfres o LRAau ar hyd arfordir Cymru hefyd (Aberdaugleddau, Doc Penfro, Aberteifi, Caergybi) a dwy mewn ardaloedd anghysbell mewndirol (o gwmpas y Drenewydd a Blaenau Ffestiniog).

Mae Atodiad A yn rhestru pob un o'r LRAau unigol ochr yn ochr ag ystadegau allweddol IAC i helpu i nodi'r ffactorau sy'n sbarduno'r angen yn yr ardaloedd hyn.

Mae'r siart isod yn dangos cyfran y bobl mewn LRA sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae ardaloedd gwledig a threfol yn cael eu diffinio yma gan ddefnyddio dosbarthiad Trefol Gwledig y Swyddfa Ystadegau Gwladol<sup>7</sup>. Mae ardaloedd yn cael eu diffinio fel ardaloedd 'trefol' os cawsant eu dyrannu i [ardal adeiledig yn 2011](#) gyda phoblogaeth o 10,000 neu fwy, tra bod gweddill yr ardaloedd yn cael eu diffinio fel ardaloedd gwledig.



Mae'r siart yn dangos bod y rhan fwyaf o'r LRAau mewn ardaloedd trefol, gyda 720,000 o bobl (88% o'r holl bobl mewn LRAau) yn byw mewn ardaloedd *Trefol: dinas a thref*, o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 68%. Mae llai nag 1% o bobl yn byw mewn LRAau fel *pentrefi gwledig* – yn wahanol i Gymru gyfan, lle mae 15% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd sydd wedi'u dosbarthu'n *pentrefi gwledig*.


Mae'r siart isod yn edrych ar nodweddion cymdogaethau ar draws LRAau fel y'u diffinnir gan ddefnyddio'r Dosbarthiad Ardal Gynnyrch (OAC)<sup>8</sup>. Mae OAC yn dosbarthu pob ardal yn y wlad ar sail set o nodweddion cymdeithasol-ddemograffig, gan roi proffil o ardaloedd i nodi tebygrwydd rhwng cymdogaethau.

<sup>7</sup>

<https://www.ons.gov.uk/methodology/geography/geographicalproducts/ruralurbanclassifications/2011ruralurbanclassification>

<sup>8</sup> [Output Area Classification \(2011\) | CDRC Data https://data.cdrc.ac.uk/dataset/output-area-classification-2011](https://data.cdrc.ac.uk/dataset/output-area-classification-2011)

## Dosbarthiad ardal



Mae'r gyfran uchaf o bobl mewn LRAau yn byw mewn ardaloedd sy'n cael eu categorio fel 'Bywyd o galedi' yn ôl dosbarthiad yr OAC. Mae'r rhain yn ardaloedd sydd ar gyrion ardaloedd trefol y DU gan mwyaf ac fe'u nodweddir gan lefelau uchel o bobl mewn llety teras, diweithdra uchel, amrywiaeth ethnig isel a lefelau uchel o bobl yn cael eu cyflogi mewn gweithgynhyrchu. Mae 59% o bobl sy'n byw mewn LRA yn byw mewn ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn 'Fywyd o galedi', o'i gymharu â 33% mewn ardaloedd difreintiedig eraill a 33% ledled Cymru.

## Ffactor


Mae'r adran hon yn edrych ar nodweddion poblogaeth LRA a sut maent yn wahanol i ardaloedd eraill ledled Cymru.

Mae **818,494** o bobl yn byw mewn LRA, ac mae **49.1%** ohonynt yn ddynion a **50.9%** yn fenywod.

### Mae gan LRAau boblogaeth gymharol ifanc o'i gymharu â Chymru gyfan...

Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad oedran y boblogaeth.

Mae ychydig o dan un o bob pump o bobl mewn LRA (19.9%) o dan 16 oed – sy'n uwch na'r cyfartaledd mewn ardaloedd difreintiedig eraill (17.7%) a Chymru gyfan (17.8%). I'r gwrthwyneb, mae gan LRAau gyfran is o bobl oed gweithio (61.6%) nag ardaloedd difreintiedig eraill (68.5%) a chyfran is o bobl 65 oed a hŷn (18.4%) nag ar draws Cymru gyfan (21.1%).




### ...gyda'r boblogaeth yn tyfu'n arafach nag ar draws ardaloedd difreintiedig tebyg

Mae'r siart isod yn dangos y newid yn y boblogaeth ar draws LRAau a'u cymaryddion rhwng 2001 a 2020.

Mae LRA wedi gweld cynnydd llai yn y boblogaeth na'r ardaloedd sydd wedi'u meincnodi, gyda'r boblogaeth yn aros yn weddol sefydlog rhwng 2001 a 2003 cyn codi'n raddol, er bod hynny yn arafach na'r ardaloedd cymharol. Cynyddodd y boblogaeth yn yr LRAau 6.6% rhwng 2001 a 2020, o'i gymharu â dros 17.1% mewn ardaloedd difreintiedig eraill ac 8.9% ledled Cymru dros yr un cyfnod.



### Newid yn y boblogaeth rhwng 2001 a 2020




Ffynhonnell: ONS 2020

**Mae pobl sy'n byw mewn LRAau yn llai tebygol o ddod o grwpiau lleiafrifoedd ethnig nag mewn ardaloedd difreintiedig eraill...**

Mae'r siart isod yn dangos nifer y bobl mewn grwpiau Gwyn Heb fod yn Brydeinig a grwpiau Ethnig Heb fod yn Wyn ledled LRAau a Chymru gyfan.

### Poblogaeth mewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae LRA yn llai amrywiol o ran ethnigrwydd nag ardaloedd difreintiedig eraill yng Nghymru, gyda chyfran is o bobl yn nodi eu bod yn Wyn heb fod yn Brydeinig (2.2%) neu ddim yn Wyn (4.5%) na'r cyfartaledd ar draws ardaloedd difreintiedig eraill (4.6% a 15.3% yn y drefn honno), ac mae'r proffil ethnig yn debyg i'r cyfartaledd ar draws Cymru gyfan (2.4% a 4.4%). Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o bobl sy'n byw mewn LRAau yn dod o gymunedau BAME (tua 36,000 o bobl).

Mae'r siart isod yn rhoi dadansoddiad manylach o'r boblogaeth yn ôl grŵp lleiafrifoedd ethnig mewn LRAau ac yng Nghymru.

Mae'r siart yn dangos bod y proffil ethnig yn yr LRAau yn cyfateb yn fras i gyfartaledd Cymru, gyda chyfran uwch o bobl mewn grwpiau ethnig gwyn eraill nag ar draws pob un o'r categorïau grwpiau lleiafrifoedd ethnig heb fod yn wyn.




**Mae pobl sy'n byw mewn LRAau yn fwy tebygol o gael eu geni yng Nghymru ond yn llai tebygol o siarad neu ddeall Cymraeg**

Mae patrwm tebyg yn amlwg wrth edrych ar amrywiadau o ran gwlad enedigol.

Mae pobl sy'n byw mewn LRAau yn fwy tebygol o gael eu geni yng Nghymru (80.1%), na'r cyfartaledd ar draws ardaloedd difreintiedig eraill (71.2%) a Chymru drwyddi draw (72.7%). Mae'r siart isod yn dangos cyfran y bobl sydd wedi cael eu geni y tu allan i Gymru. Mae pobl mewn LRAau ac ardaloedd difreintiedig eraill fel ei gilydd yn llawer llai tebygol o gael eu geni yn Lloegr (14% a 13.8% yn y drefn honno, na chyfartaledd Cymru). Fodd bynnag, mae cyfran y bobl sydd wedi cael eu geni y tu allan i'r DU mewn LRAau dim ond ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (5.1% mewn LRAau, o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 5.5%) ond yn sylweddol is na'r cyfartaledd mewn ardaloedd difreintiedig eraill (14.1%).


### Gwlad enedigol (y tu allan i Gymru)



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r siart isod yn cymharu'r gallu i siarad Cymraeg mewn LRAAu a chymaryddion.


### Gallu siarad Cymraeg



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae pobl mewn LRA yn llai tebygol o feddu ar sgiliau Cymraeg na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu lleoliad yr ardaloedd hyn, gyda chrynodiadau uchel yn y Cymoedd, sy'n Saesneg eu haith yn bennaf, a chrynodiadau is yng Ngorllewin a Gogledd Cymru. Fodd bynnag, mae pobl sy'n byw mewn LRAAu ychydig yn fwy tebygol o fod yn rhugl yn y Gymraeg nag mewn ardaloedd difreintiedig eraill.

Mae'r siart isod yn dangos cyfansoddiad mathau o aelwydydd mewn LRAau, o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.




Nodweddir LRA fel rhai sydd â lefelau uwch o aelwydydd un person, aelwydydd sy'n cyd-fyw ac aelwydydd teulu rhieni sengl o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Tai

Mae'r adran hon yn edrych ar dueddiadau tai allweddol mewn LRAau o'u cymharu ag ardaloedd eraill ledled Cymru.

### Mae pobl mewn LRAau yn fwy tebygol o fyw mewn tai rhent cymdeithasol...

Mae'r siart isod yn dangos y dadansoddiad daliadaeth ledled LRAau, ardaloedd difreintiedig eraill a Chymru gyfan.



Mae'r siart yn dangos bod 59% o bobl mewn LRAau yn berchen ar eu cartref eu hunain, o'i gymharu ag ychydig o dan 68% ledled Cymru drwyddi draw.

I'r gwrthwyneb, mae 26.1% o bobl mewn LRA yn byw mewn tai rhent cymdeithasol, sydd ychydig yn uwch na'r gyfran mewn ardaloedd difreintiedig eraill (20.4%) ac yn sylweddol uwch na'r gyfran ar draws Cymru gyfan (16.5%). Mae hyn yn adlewyrchu'r crynodiad o LRA mewn ystadau tai cymdeithasol ar wahân.


### ...gyda chyfran gymharol fawr o anheddau wedi'u hadeiladu yn y cyfnod ar ôl y rhyfel

Mae'r siart isod yn dangos oedran y llety ar draws LRAau a chymaryddion.

Mae'r siart yn dangos bod cyfran uwch o bobl mewn LRAau yn byw mewn tai a adeiladwyd ar ôl y rhyfel, gyda dros 30% o anheddau yn yr ardaloedd hyn yn wedi eu hadeiladu rhwng 1945 ac 1972, o'i gymharu â 15% mewn ardaloedd difreintiedig eraill a 25% ar draws Cymru gyfan. Mae hyn yn adlewyrchu dosbarthiad daearyddol LRAau, gyda chrynodiad uchel o LRAau mewn stadau tai cymdeithasol diarffordd a adeiladwyd mewn ymateb i ddiwedd y Fictoriaidd yng nghanol dinasoedd yn ystod ac yn dilyn yr Ail Ryfel Byd.


I'r gwrthwyneb, mae cyfran gymharol fach o'r tai a adeiladwyd y Mileniwm hwn yn yr LRAau. Adeiladwyd 9.9% o'r holl stoc dai ar ôl y flwyddyn 2000, o'i gymharu â 14.4% ar draws ardaloedd difreintiedig eraill a 12.9% ar draws Cymru gyfan. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r twf araf yn y boblogaeth yn yr ardaloedd hyn.

### Llety yn ôl oed yr annedd



Mae'r siart isod yn dangos y gwahaniaethau mewn prisiau eiddo cyfartalog ar draws LRAau ac ardaloedd cymharol.

### Pris eiddo yn ôl math o annedd




Mae'r pris eiddo cyfartalog mewn LRA yn is ar gyfer pob math o eiddo o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn is na mewn ardaloedd eraill o amddifadedd tebyg ar gyfer pob math o dai ar wahân i dai sengl.

## Yr Economi

Mae'r adran hon yn edrych ar ysgogwyr economaidd mewn LRAau o'u cymharu ag ardaloedd eraill ledled Cymru.

### Mae llawer llai o swyddi lleol ar gael mewn LRAau o'i gymharu ag ardaloedd difreintiedig eraill...

Mae'r siart isod yn cymharu'r dwysedd swyddi (nifer y swyddi fel cymhareb o'r boblogaeth oed gweithio) mewn LRAau a'u cymaryddion.




Mae 47 o swyddi i bob 100 oedolyn oed gweithio yn yr LRAau. Mae hyn ychydig dros hanner y cyfartaledd ar draws ardaloedd difreintiedig eraill (90 i bob 100 oedolyn oed gweithio) ac yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar draws Cymru gyfan (69 am bob 100). Mae hyn yn golygu petai oedolion o oedran gweithio yn chwilio am waith, y byddai llai na hanner yn gallu dod o hyd i waith yn lleol. Mae hyn yn adlewyrchu natur ymylol yr LRA o'i gymharu â chymaryddion cenedlaethol, ymhellach i ffwrdd o brif ganolfannau cyflogaeth.

### Gyda'r swyddi sydd ar gael yn llai tebygol o fod yn rhai sgiliedig iawn...

Mae'r siart isod yn cymharu cyfran y swyddi sy'n llawn amser a rhan amser ar draws LRAau ac ardaloedd cymharol.

Mae cyfran uwch o swyddi mewn LRAau yn cynnig cyflogaeth ran-amser (33.3%) nag ar draws Cymru gyfan (31.8%), ond yn is nag mewn ardaloedd difreintiedig eraill (33.3%).

### Cyfran y swyddi sy'n llawn amser/rhan amser




Ffynhonnell: Cofrestr Busnesau ac Arolwg Cyflogaeth 2020

Mae'r siart isod yn dangos cyfran y bobl sy'n byw mewn LRAAu a chymaryddion sydd mewn galwedigaethau proffesiynol sgiliedig iawn (proffesiynol, rheolaethol a phroffesiynol gysylltiol) a galwedigaethau sgiliau isel (elfennol).

Mae'r siart yn dangos bod cyfran is o bobl sy'n byw mewn LRAAu yn cael eu cyflogi mewn galwedigaethau â sgiliau uchel (27%) nag ardaloedd difreintiedig eraill (30.5%). Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â phroffil sgiliau is yr ardaloedd hyn yn ogystal ag argaeledd swyddi (gweler yr adran addysg isod).

### Proffil galwedigaeth (galwedigaethau 'sgiliau uchel' a 'sgiliau isel' yn ôl man preswyllo)




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

### Sy'n cael ei adlewyrchu mewn incwm aelwydydd cyffredinol is...

Mae'r siart isod yn cymharu lefelau incwm blynyddol cyfartalog aelwydydd (cyn ac ar ôl costau tai) mewn LRAAu a'u cymaryddion.



## Incwm y cartref



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011


Mae'r siart yn dangos bod incwm blynyddol cyfartalog aelwydydd yn yr LRAau dros £3,800 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar ôl ystyried costau tai. Mae enillion cyfartalog hefyd ychydig yn is nag ar draws ardaloedd difreintiedig eraill (cyn ystyried costau tai).

## Cyflogaeth a diweithdra

Mae'r adran hon yn edrych ar y newidiadau mewn diweithdra a bod heb waith yn ehangach mewn LRAau ac ardaloedd cymharol.

**Mae diweithdra wedi bod yn amrywio rhwng 2004 a 2022, gyda chynnydd sydyn yn ystod argyfwng ariannol diwedd y 2000au a'r pandemig Covid-19 diweddar**

Mae'r siart isod yn olrhain y gyfradd hawlwr budd-dal diweithdra ar draws LRAau a chymaryddion rhwng 2004 a 2022. Mae'r data'n cofnodi nifer a chyfran y bobl oed gweithio sy'n derbyn budd-daliadau sy'n daladwy i'r rheini sy'n ddi-waith – Lwfans Ceisio Gwaith a Chredyd Cynhwysol i'r rheini sy'n ddi-waith ac yn chwilio am waith.



Mae'n amlwg o'r siart bod nifer o amrywiadau wedi bod mewn diweithdra ar draws LRAau ac ardaloedd cymharol fel ei gilydd dros y cyfnod. Rhwng 2004 a 2008, arhosodd y gyfradd ddiweithdra yn gymharol sefydlog cyn codi'n sydyn o 2008 i 2010 yn ystod yr argyfwng ariannol byd-eang. Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd diweithdra'n gyflymach mewn LRAau nag mewn ardaloedd difreintiedig eraill – ym mis Chwefror 2007 roedd y gyfradd diweithdra yn yr LRAau yn debyg i gyfradd yr ardaloedd difreintiedig eraill (gyda'r ddau ar gyfartaledd o 3.6%); fodd bynnag, erbyn mis Ebrill 2009, roedd y sefyllfa wedi newid, gyda chyfraddau diweithdra mewn LRAau yn uwch o lawer na'r cyfartaledd mewn ardaloedd nad ydynt yn LRA (6.3%), o'i gymharu â 5.7% mewn ardaloedd difreintiedig eraill).

O 2012 ymlaen, dechreuodd y gyfradd ddiweithdra ostwng ar draws LRAau ac ardaloedd difreintiedig eraill, cyn codi'n araf o 2016 ymlaen. Mae ail gynnydd mwy sydyn mewn diweithdra wedi digwydd yn dilyn y cyfyngiadau symud Covid-19 ym mis Mawrth, gyda diweithdra'n codi'n sylweddol ar draws pob ardal – 2.7 pwynt canran yn yr LRAau, 2.5 mewn ardaloedd difreintiedig eraill a 2.3 yng Nghymru rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2020.

Yn dilyn y cynnydd cychwynnol, mae LRAau wedi gweld cynnydd mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond yn llai nag ar draws ardaloedd difreintiedig eraill ac, o ganlyniad, mae'r gyfradd diweithdra mewn LRAau wedi gostwng yn is na'r gyfradd mewn ardaloedd difreintiedig eraill. Yn fwy diweddar, mae cyfraddau diweithdra

wedi gostwng ar draws pob rhan o Gymru yn dilyn yr uchelfannau hanesyddol yn 2021. Ym mis Mehefin 2022, roedd diweithdra yn 4.8% mewn LRAau, 5.6% mewn ardaloedd difreintiedig eraill a 3.3% yng Nghymru gyfan.


### **Mae pobl mewn LRAau yn fwy tebygol o brofi diweithdra ehangach nag ardaloedd difreintiedig eraill ac yng Nghymru at ei gilydd**

Nid yw llawer o bobl sy'n ddi-waith yn cael budd-daliadau diweithdra. Er nad yw rhai o'r bobl hyn yn cael eu hystyried yn 'ddi-waith' o dan y diffiniad traddodiadol, gellir ystyried eu bod 'heb waith' yn yr ystyr y byddent mewn gwaith cyflogedig pe bai cyfle addas ar gael. Dau grŵp mawr o bobl heb waith nad ydynt yn derbyn budd-daliadau diweithdra yw'r rheini sy'n cael eu heithrio'n anwirfoddol o'r farchnad lafur oherwydd iechyd gwael neu gyfrifoldebau gofalu. Mae'r rhan fwyaf o'r grŵp hwn bellach yn derbyn Credyd Cynhwysol. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o faint ac anghenion y grŵp hwn, mae'n ddefnyddiol edrych ar nodweddion hawlwr Credyd Cynhwysol. Gellir penderfynu ar hyn drwy edrych ar yr amodau sydd ynghlwm wrth yr hawliad Cynhwysol sy'n ymwneud ag anghenion ac amgylchiadau'r hawllydd. Mae amodau yn cyfeirio at y gweithgareddau y bydd yn rhaid i oedolyn cymwys eu gwneud er mwyn cael hawl lawn i Gredyd Cynhwysol. Bydd pob oedolyn cymwys yn dod o dan un o chwe threfn amodol yn seiliedig ar eu gallu a'u hamgylchiadau:

Trefn Amodol	Disgrifiad
Chwilio am waith	Ddim yn gweithio, neu gydag enillion isel iawn. Mae'n ofynnol i'r hawllydd gymryd camau i sicrhau gwaith – neu fwy o waith / gwaith sy'n talu'n well. Mae'r Anogwr Gwaith yn eu helpu i gynllunio eu gweithgareddau paratoi a chwilio am waith.
Gweithio – gyda gofynion	Mewn gwaith ond yn gallu ennill mwy, neu ddim yn gweithio ond bod ganddynt bartner sydd ag enillion isel
Dim gofynion gwaith	Nid yw gweithio'n ddisgwyliedig ar hyn o bryd. Mae cyfrifoldeb iechyd neu ofalu yn atal hawllydd rhag gweithio neu baratoi ar gyfer gwaith.
Gweithio – dim gofynion	Enillion unigol neu aelwyd dros y lefel y mae amodau yn berthnasol iddi. Rhaid rhoi gwybod i'r Adran Gwaith a Phensiynau am newidiadau mewn amgylchiadau, yn enwedig os oes perygl o golli enillion neu golli swydd.
Cynllunio ar gyfer gwaith	Disgwyliwr gweithio yn y dyfodol. Rhiant sengl / prif ofalwr plentyn 1 oed. Rhaid i'r hawllydd fynychu cyfweiliadau achlysurol i gynllunio ar gyfer dychwelyd i'r gwaith.
Paratoi ar gyfer gwaith	Disgwyliwr y bydd yn dechrau paratoi ar gyfer y dyfodol hyd yn oed gyda gallu cyfyngedig i weithio ar hyn o bryd neu blentyn 2 oed, disgwyliwr i'r hawllydd gymryd camau rhesymol i baratoi ar gyfer gwaith gan gynnwys Cyfweiliad sy'n Canolbwyntio ar Waith.

Mae'r siart isod yn cymharu'r dadansoddiad o dderbynwyr Credyd Cynhwysol mewn LRAau, ardaloedd difreintiedig eraill a Chymru gyfan yn ôl prif grŵp amodol (ac eithrio'r rheini yn y categori amodol *Gweithio – dim gofynion*, nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhan o'r grŵp di-waith ehangach).

### Hawlwyr Credyd Cynhwysol yn ôl trefn amodol




Mae'r siart yn dangos mai'r rheini sydd heb unrhyw ofynion gwaith yw'r elfen fwyaf o hawlwyr Credyd Cynhwysol mewn LRAAu, ardaloedd difreintiedig heb fod yn LRAAu a Chymru fel ei gilydd. Nid yw'r grŵp hwn yn cael ei gynnwys yn y ffigurau diweithdra uchod ac mae'n ymwneud â phobl sy'n economaidd anweithgar naill ai oherwydd salwch neu gyfrifoldebau gofalu. Mae pobl mewn LRAAu yn llawer mwy tebygol o fod yn y grŵp *dim gofynion gwaith* (7.1%) nag ar draws ardaloedd difreintiedig eraill (5.9%) a Chymru gyfan (4.6%), sy'n dangos heriau iechyd ac anabledd tymor hir yn yr ardaloedd hyn (wedi'u harchwilio'n fanylach yn yr adran iechyd isod).

## Iechyd

Mae'r adran hon yn edrych ar ganlyniadau iechyd allweddol mewn LRAau o'u cymharu ag ardaloedd eraill ledled Cymru.

**Mae LRAau yn profi disgwyliad oes is a disgwyliad oes iach is, a chyffredinrwydd uwch o ran salwch tymor hir cyfyngol nag ar draws Cymru gyfan.**

Mae'r siart isod yn cymharu disgwyliad oes a disgwyliad oes iach (*nifer cyfartalog y blynyddoedd y gallai unigolyn ddisgwyl byw mewn iechyd "da" yn ystod ei oes*) ar draws LRAau ac ardaloedd cymharol.




Gall pobl sy'n byw mewn LRAau ddisgwyl byw bywydau byrrach a llai iach na'r cyfartaledd ledled Cymru, gyda disgwyliad oes o 76 mlynedd a disgwyliad oes iach o 64 oed, o'i gymharu â 78 a 68 mlynedd yn y drefn honno ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r ffigurau ar gyfer LRAau yn weddol debyg i'r cyfartaledd ar gyfer ardaloedd difreintiedig eraill.

Mae'r siart isod yn dangos cyfran y bobl mewn gwahanol grwpiau oedran sydd â salwch tymor hir cyfyngol.

Mae gan fwy nag un o bob pedwar (25.9%) o bobl mewn LRAau salwch tymor hir, sy'n uwch nag ar draws ardaloedd difreintiedig eraill (22%) a Chymru gyfan (22.7%). Gwelir y gwahaniaeth hwn ar draws pob grŵp oedran.

### Salwch tymor hir cyfyngol




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 1999-2003

### Adlewyrchir hyn yn y gyfran gymharol uchel o oedolion o oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau oherwydd iechyd gwael ac anabledd

Mae'r siart isod yn dangos cyfran y bobl sy'n cael Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP) (gan gynnwys y rheini sy'n cael taliadau am gyflyrau iechyd meddwl). Mae PIP yn daladwy i bobl sydd â salwch neu anabledd hirdymor y mae angen cymorth gofal cymdeithasol arnynt i reoli eu cyflyrau – ni waeth beth yw eu amgylchiadau cyflogaeth na'u hamgylchiadau ariannol.


### Cyfradd hawlio Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) (%)



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) Ionawr 2022

Mae gan LRAau gyfradd hawlwr PIP llawer uwch nag ar draws yr ardaloedd meincnod, gydag 14.8% o oedolion o oedran gweithio mewn LRAau yn derbyn PIP, o'i gymharu ag 11.4% mewn ardaloedd difreintiedig eraill ac 10.7% ledled Cymru gyfan. O'r rhain, mae tua un rhan o dair yn cael y budd-daliadau hyn oherwydd cyflyrau iechyd meddwl.

Mae'r siart isod yn dangos cyfran y bobl 65 oed a hŷn sy'n derbyn Lwfans Gweini. Mae'r Lwfans Gweini yn daladwy i bobl dros 65 oed sydd mor ddifrifol anabl, yn gorfforol neu'n feddyliol, fel bod angen llawer iawn o help arnynt gyda gofal personol neu oruchwyliaeth.




Mae cyfradd hawlwr Lwfans Byw i'r Anabl yn uwch na'r gyfradd ar draws Cymru gyfan, gyda 15.3% o bobl hŷn mewn LRAAu yn cael Taliad Annibyniaeth Personol, o'i gymharu â 16.4% mewn ardaloedd difreintiedig eraill a 13.8% ledled Cymru.

**Mae cyfran uwch o bobl sy'n byw mewn LRAAu yn ofalwyr anffurfiol – mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r lefelau cymharol uchel o salwch ac anabledd yn yr ardaloedd hyn, a diffyg mynediad at ofal ffurfiol**

Mae'r siart isod yn dangos nifer a chyfran y bobl sy'n darparu gofal di-dâl. Mae person yn cael ei nodi fel darparwr gofal di-dâl os yw'n rhoi unrhyw gymorth neu gefnogaeth i berson arall oherwydd iechyd neu anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint.

Mae pobl mewn LRAAu yn fwy tebygol o fod yn darparu gofal di-dâl (12.1%) na'r rheini mewn ardaloedd difreintiedig eraill (10.2%) er eu bod yn cyfateb i'r cyfartaledd ar draws Cymru gyfan (12.1%). O'r rhain, mae oddeutu un o bob pedwar yn darparu gofal di-dâl am fwy na 50 awr yr wythnos. Mae cyfran y gofalwyr llawn amser hyn yn uwch yn yr LRAAu (4% o'r boblogaeth) nag ar draws ardaloedd difreintiedig eraill (3.1%) a Chymru drwyddi draw (3.4%). Oedolion yw'r rhan fwyaf o ofalwyr di-dâl; fodd bynnag, mae 1.4% o blant mewn LRAAu yn darparu gofal di-dâl (yn fras yn unol â'r cyfartaledd ar draws Cymru gyfan).

### Pobl sy'n darparu gofal di-dâl




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

### Mae cyfraddau marwolaethau hefyd yn uwch nag ar draws ardaloedd difreintiedig eraill

Mae'r siart isod yn dangos y gyfradd marwolaethau ar gyfer pob achos ar gyfer LRAau ac ardaloedd cymharol. Mae'r ffigurau yn y siart wedi'u safoni yn ôl oedran – gan ystyried proffil oedran yr ardal.

### Cyfradd marwolaethau o achosion allweddol (cyfradd safonedig yn ôl oedran fesul 100,000)



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014


Mae'r gyfradd marwolaethau gyffredinol ychydig yn uwch mewn LRAau (1,188 am bob 100,000 o bobl) nag ar draws ardaloedd difreintiedig eraill (1,141 am bob 100,000 o bobl) a Chymru gyfan (1,039 am bob 100,000 o bobl). Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn lefelau uwch na'r disgwyl o farwolaethau ar gyfer pob cyflwr allweddol mewn LRAau o ystyried proffil oedran yr ardal.

Mae'r siart isod yn dangos yr achosion o ganser (fesul 100,000 o'r boblogaeth) o bob achos.

Unwaith eto, mae cyfraddau LRAau ychydig yn uwch (649) na'r cyfartaledd ar draws ardaloedd difreintiedig eraill (646.4), ac maent yn uwch o lawer na'r cyfartaledd ar draws Cymru gyfan (613).



Achosion o Ganser (cyfradd safonedig yn ôl oedran fesul 100,000)




Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

## Troseddu

Mae'r adran hon yn edrych ar ystadegau troseddu mewn LRAu o'u cymharu ag ardaloedd eraill ledled Cymru.

**Mae LRA yn profi mwy o droseddu na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pob prif fath o drosedd – er yn is na'r cyfartaledd ar draws ardaloedd difreintiedig eraill**

Troseddau hysbysadwy a riportiwyd i'r heddlu – troseddau dethol



Ffynhonnell: [www.police.uk](http://www.police.uk) (2020/21)


Mae cyfraddau troseddu LRAu yn uwch yn gyffredinol (129.6 am bob 1,000)<sup>9</sup> na Chymru gyfan (100 am bob 1,000), patrwm sy'n cael ei ailadrodd ar draws yr holl brif fathau o droseddau. Fodd bynnag, mae gan yr LRAu lefelau is o droseddau allweddol nag ardaloedd difreintiedig eraill ar gyfartaledd. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'u lleoliad mewn ardaloedd mwy ymylol (oddi wrth ganol trefi ac ardaloedd bywyd nos lle mae gwahanol fathau o droseddau'n fwy cyffredin).

**Mae lefelau troseddau treisgar yn uwch yn yr LRAu na chyfartaledd Cymru, ac maent yn codi, sy'n cyd-fynd â'r stori genedlaethol**


Mae'r siartiau isod yn olrhain newid misol mewn lefelau troseddu ar gyfer troseddau treisgar a bwrglera ar draws LRAu a chymaryddion.

<sup>9</sup>Sylwch nad yw'r ffigurau yn y siart yn cyfateb i'r gyfradd droseddu gyffredinol, gan fod y gyfradd fyrgleriaeth yn cael ei chofnodi fel cyfradd fesul 1,000 o aelwydydd yn hytrach na chyfradd am bob 1,000 o'r boblogaeth.

### Newid mewn troseddau treisgar



### Newid mewn troseddau bwrglera



Ffynhonnell: [www.police.uk](http://www.police.uk) (2020/21)


Mae'r siartiau'n dangos bod gwahanol fathau o droseddau'n dangos gwahanol drywyddau. Mae lefelau bwrglera yn gostwng ar draws pob ardal, ac mae rhywfaint o dystiolaeth bod y bwlch yn lleihau rhwng LRAu a Chymru gyfan. I'r gwrthwyneb, mae lefelau troseddu treisgar yn cynyddu ac mae'r bwlch yn ehangu rhwng LRAu a'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Addysg a sgiliau

Mae'r adran hon yn edrych ar lefelau cymwysterau a sgiliau mewn LRAau o'u cymharu ag ardaloedd eraill ledled Cymru.

**Mae pobl mewn LRAau yn fwy tebygol o fod heb gymwysterau ac yn llai tebygol o fod â chymwysterau lefel gradd nag mewn ardaloedd difreintiedig eraill ac yng Nghymru yn gyffredinol**

Mae'r siart isod yn cymharu cyfran y bobl heb unrhyw gymwysterau a chymwysterau lefel gradd mewn LRAau a'u hardaloedd cymharol.




Nid oes gan fwy nag un o bob tri oedolyn yn yr LRAau unrhyw gymwysterau (34.2%), sy'n uwch na'r cyfartaledd mewn ardaloedd difreintiedig eraill (27.7%) a Chymru gyfan (25.9%). I'r gwrthwyneb, dim ond 16% o oedolion mewn LRAau sydd â gradd neu gymwysterau uwch, ac mae hyn yn is o lawer na'r cyfartaledd mewn ardaloedd difreintiedig eraill (21.7%) a Chymru (24.5%).

**Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y deilliannau addysgol i blant – mae lefelau cyrhaeddiad ymysg plant ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn is yn yr LRAau na'r cyfartaledd ledled Cymru, gyda bwlbh mwy o ran cyrhaeddiad ymysg plant hŷn....**

Mae'r siart isod yn dangos y sgôr pwyntiau cyfartalog yng Nghyfnod Allweddol 2 (11 oed) a Chyfnod Allweddol 4 (TGAU) ar draws LRAau ac ardaloedd cymharol (sgôr uwch yn cyfateb i lefelau cyrhaeddiad uwch).

Mae LRAau yn perfformio'n salach ar y mesur Cyfnod Allweddol 4 (TGAU) na'r ardaloedd difreintiedig eraill yng Nghymru. Mae gan LRAau hefyd lefelau cyrhaeddiad is yng Nghyfnod Allweddol 2 nag ar draws Cymru.

Cyrhaeddiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4 (TGAU), 2015/16-2017/18 gyda'i gilydd



Mae Sgôr Pwyntiau Cyfartalog CA2 ar gyfer pob disgybl yn cynnwys sgorau pwyntiau Saesneg/Cymraeg, Mathemateg a gwyddoniaeth lle mae'r sgôr o 33=lefel 5, 27=lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig), 21=lefel 3, 15=lefel 2. Mae CA4 yn mesur sgôr pwyntiau cyfartalog disgyblion Blwyddyn 11 sy'n seiliedig ar y graddau a gafwyd yn y pynciau craidd, sef TGAU Saesneg neu Gymraeg, TGAU Mathemateg a TGAU Gwyddoniaeth


■ Key Stage 2    ■ Key Stage 4

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

**...Gan arwain at gyfran is o oedolion ifanc sy'n mynd i Addysg Uwch**

Mae'r siart isod yn dangos cyfran y rhai sy'n gadael Cyfnod Allweddol 4 sy'n mynd i Addysg Uwch (disgyblion CA4 a oedd, ar ryw adeg yn ystod y tair blynedd ddilynol ar ôl gadael Blwyddyn 11, yn mynd i Addysg Uwch).

Canran y rhai sy'n gadael Cyfnod Allweddol 4 sy'n mynd i Addysg Uwch, 2011/12 - 2014/15 gyda'i gilydd



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019


Dim ond 23.2% o'r rhai a adawodd Cyfnod Allweddol 4 a aeth i Addysg Uwch mewn LRAau, o'i gymharu â 23.8% mewn ardaloedd difreintiedig eraill a 29.9% ledled Cymru drwyddi draw.

## Mynediad a gwasanaethau

Mae'r adran hon yn edrych ar fynediad i wasanaethau mewn LRAau o'u cymharu ag ardaloedd eraill ledled Cymru.

### Mae cartrefi mewn LRAau yn llai tebygol o fod yn berchen ar gar na'r cyfartaledd ledled Cymru...

Mae'r siart isod yn dangos cyfran y cartrefi mewn LRAau sydd heb gar a nifer y ceir a berchnogir.



Mae'n dangos nad oes gan 31.7% o gartrefi LRAau gar na fan, o'i gymharu â 22.9% ledled Cymru. Mae cyfran y bobl heb gar yn is nag ar draws ardaloedd difreintiedig eraill. Fodd bynnag, mae LRAau fel arfer yn fwy tebygol o gael eu lleoli mewn ardaloedd anghysbell nag ardaloedd difreintiedig eraill, felly mae ganddynt amseroedd teithio hirach i gael gafael ar wasanaethau allweddol a chyfleoedd cyflogaeth.

## Anghenion cymunedol a seilwaith cymdeithasol

Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd ddata seilwaith cymdeithasol i roi dealltwriaeth o gryfder y gymuned mewn LRAau o'i gymharu ag ardaloedd difreintiedig eraill yng Nghymru. Edrychir ar gryfder cymunedol o ran argaeledd asedau dinesig a diwylliannol fel neuaddau cyhoeddus, ysgolion a chanolfannau hamdden; cryfder y trydydd sector drwy waith mudiadau elusennol a rhoi grantiau mewn ardaloedd lleol; a throsolwg o gyfranogiad yn y gymuned ac archwilio cyfraddau pleidleisio.

Cafodd Indecs Asedau Cymunedol (IAC) ei ddatblygu i ganfod ardaloedd sy'n profi seilwaith cymunedol a dinesig gwael, arwahanrwydd cymharol a lefelau isel o gyfranogiad mewn bywyd cymunedol. Cafodd y mynegai ei greu drwy gyfuno cyfres o 19 o dangosyddion, wedi'u cysyniadu o dan dri maes:

- **Asedau Dinesig:** Mae'n mesur presenoldeb asedau cymunedol, dinesig, addysgol a diwylliannol allweddol yn yr ardal ac yn agos ati. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau ieuenctid, llyfrgelloedd, parciau cyhoeddus, canolfannau cymunedol, pyllau nofio, neuaddau pentref, asedau sy'n eiddo i'r gymuned – cyfleusterau sy'n darparu pethau i'w gwneud a mannau cyfarfod yn aml, heb fawr o gost, sy'n bwysig i ba mor gadarnhaol y mae cymuned yn teimlo am ei hardal.
- **Natur gysylltiedig:** Mae'n mesur y cysylltedd, mewn termau ffisegol pa mor hawdd yw cael gafael ar wasanaethau allweddol fel gwasanaethau iechyd, cysylltedd digidol, cysylltedd cymdeithasol gyda mesur o unigrwydd, mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat a chryfder y farchnad swyddi leol.
- **Cymuned egniol ac ymgysylltiol:** Mae'n mesur lefelau cyfranogiad gweithredol mewn bywyd cymunedol a dinesig, lefelau ymgysylltu, gwirfoddoli, canfyddiadau o berthnasoedd cymdeithasol a chryfder y trydydd sector yn lleol.

Mae'r tabl isod yn dangos y dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn y meysydd hyn.

Dangosydd	Ffynhonnell	Dyddiad
<b>Asedau Dinesig</b>		
CA1: Dwysedd asedau manau cymunedol	AddressBase	Gorff. 2021
CA2: Dwysedd asedau addysgol	AddressBase	Gorff. 2021
CA3a: Dwysedd asedau chwaraeon a hamdden (AddressBase)	AddressBase	Gorff. 2021
CA4: Dwysedd asedau diwylliannol	AddressBase	Gorff. 2021
CA5a: Asedau gwyrdd (dwysedd)	AddressBase	Gorff. 2021
CA5b: Asedau gwyrdd (Ardal o fannau gwyrdd cyhoeddus)	Arolwg Ordnans	Ebrill 2020
CA6: Asedau adwerthu	AddressBase	Gorff. 2021
CA7a: Asedau sy'n eiddo i'r gymuned	Renaisi/Plunkett Foundation/Locality	2021
<b>Natur gysylltiedig</b>		
CN1a: Amser teithio i wasanaethau allweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus/cerdded	Llywodraeth Cymru	2019
CN1b: Pellter cyfartalog i'r Parc agosaf, Gardd Gyhoeddus, neu Faes Chwarae (m)	Arolwg Ordnans	Ebrill 2020
CN2a: Dwysedd swyddi yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith	Cofrestr Busnesau ac Arolwg Cyflogaeth (BRES)	2019
CN2b: Dwysedd swyddi yn yr ardal leol	Cofrestr Busnesau ac Arolwg Cyflogaeth (BRES)	2019
CN3: Aelwydydd heb gar	Cyfrifiad 2011	2011
CN4a: Cyflymderau llwytho i lawr band eang	OfCom	2020
CN4b: Cyflymder llwytho i fyny band eang	OfCom	2020
CN5: Unigrwydd (Pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain)	Cyfrifiad 2011	2011
CN5b: Unigrwydd (Mynegai Unigrwydd – Presgripsiynau Meddygon Teulu ar gyfer Unigrwydd)	Campws Gwyddoniaeth Data y Swyddfa Ystadegau Gwladol / y GIG / y Groes Goch	2019
CN4c: Unigrwydd (lefelau hunan-adrodd o unigrwydd)	Arolwg Cenedlaethol Cymru	2016/17 a 2019/20
<b>Cymuned Egniol ac Ymgysylltiol</b>		
AE1: Y nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau lleol	Y Comisiwn Etholiadol	2017
AE2a: Cyfranogiad dinesig (Hunan-adrodd ar gyfranogiad cymunedol a dinesig)	Arolwg Cenedlaethol Cymru/Dosbarthiad Ardal Gynnyrch 2011: ONS	2014/15, 2016/17, 2017/18, 2018/19, 2019/20
AE2b: Cryfder cysylltiadau cymdeithasol lleol	Arolwg Cenedlaethol Cymru/Dosbarthiad Ardal Gynnyrch 2011: ONS	2012/13, 2013/14, 2016/17, 2018/19
AE3: Cyfranogiad diwylliannol a hamdden	Arolwg Cenedlaethol Cymru/Dosbarthiad Ardal Gynnyrch 2011: ONS	2014/15, 2017/18, 2018/19, 2019/20
AE4: Sefydliadau trydydd sector	Comisiwn Elusennau, Co-operatives UK, Tŷ'r Cwmnïau, gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol	2021
AE5: Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol	Y Loteri Genedlaethol (drwy 360 Giving)	2004-2021
AE6: Cyllid grant y pen gan gyllidwyr grantiau mawr	Data Grant 360 Giving	Hyd at 2021
AE7a: Benthyciadau i fusnesau bach a chanolig gan fanciau	UK Finance	Mehefin 2020
AE7b: Busnesau bach: Unedau Busnes Lleol gyda 0-4 o weithwyr	Cofrestr Busnesau Ryngadrannol (IDBR)	2020
AE7c: Busnesau Cynhyrchiol	Deall Lleoedd Cymru	2021
AE8 Ymddiriedolwyr elusennau	Deall Lleoedd Cymru	2021


**Mae'r LRAu yn perfformio'n gymharol wael ar y mesur Cymuned Egniol ac Ymgysylltiol**



Mae'r siart isod yn dangos safleoedd maes cyfartalog WCRI o ran y meysydd Asedau Dinesig, Natur Gysylltiedig a Chymunedau Egnïol ac Ymgysylltiol ar ledled LRAau a chymaryddion. Mae safle 1 yn cael ei neilltuo i'r MSOA yng Nghymru sydd â'r cydnerthedd isaf, ac mae safle 410 yn cael ei neilltuo i'r MSOA sydd â'r cydnerthedd uchaf.

Nid yw'n syndod bod LRAau yn dangos anghenion uwch ym mhob un o'r tri maes. Mae LRAau yn perfformio'n arbennig o wael yn y maes *Cymuned Egnïol ac Ymgysylltiol* o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Mae ardaloedd difreintiedig eraill hefyd yn perfformio'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y maes hwn tra'n perfformio'n uwch na'r cyfartaledd yn y maes Asedau Dinesig – gan awgrymu mai'r crynodiad o asedau dinesig yn yr ardaloedd hyn sy'n egluro i raddau helaeth pam nad ydynt wedi cael eu nodi fel rhai 'llai cydnerth'.

### Cyfartaledd safleoedd meysydd WCRI



Ffynhonnell: OCSI 2022

**Caiff hyn ei adlewyrchu mewn diffyg gweithgarwch y trydydd sector mewn LRAau sy'n arwain at lefelau is o gyllid i gefnogi anghenion economaidd-gymdeithasol o'i gymharu ag ardaloedd difreintiedig eraill**

Mae'r tabl isod yn edrych yn fanylach ar ddangosyddion allweddol o angen cymunedol.

### Mesurau allweddol o seilwaith cymdeithasol ac anghenion y gymuned

	LRAau	Ardaloedd amddifadus eraill	Cymru
Asedau sy'n eiddo i'r gymuned (cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth)	36.4	50.1	35.0
Y nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau lleol (%)	37.5	35.6	42.3
Mudiadau'r trydydd sector (cyfradd fesul 100,000)	325	556	459
Cyllid Cymunedol y Loteri Genedlaethol y pen	149	287	180
Cyllid grant y pen gan gyllidwyr grantiau mawr	18.6	37.8	24.0
Busnesau Cynhyrchiol fesul 100,000 o'r boblogaeth	19.5	61.4	28.9
Ymddiriedolwyr elusennau (fesul 100,000 o'r boblogaeth)	838	1,314	1,366

Nid yw'r LRAau yn perfformio cystal na'r cyfartaledd ar draws ardaloedd difreintiedig eraill a dangosyddion Cymru, er gwaethaf cyfraddau ychydig yn uwch o asedau sy'n eiddo i'r gymuned na chyfartaledd Cymru a chyfraddau ychydig yn uwch o bleidleiswyr nag mewn ardaloedd difreintiedig eraill. Yn benodol, mae bylchau amlwg yn yr LRAau o ran lefelau'r cyllid a dderbyniwyd. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â diffyg gweithgarwch y trydydd sector yn yr ardaloedd hyn; gyda llai o fudiadau trydydd sector yn benodol (325 fesul 100,000 o'r boblogaeth), ac ymddiriedolwyr elusennau (838 fesul 100,000) o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (459 a 1,366 yn y drefn honno).

Mae'n werth nodi hefyd bod ardaloedd difreintiedig eraill yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol o ran denu cyllid gan y Loteri Genedlaethol, sefydliadau a chyllidwyr grantiau a'u bod wedi bod yn fwy llwyddiannus wrth ddatblygu busnesau sy'n eiddo i'r gymuned.

Mae diffyg seilwaith a chapasiti'r trydydd sector yn debygol o fod yn rhwystr allweddol i fynd i'r afael â heriau economaidd-gymdeithasol mewn LRAau.

## Atodiad A: Yr ardaloedd llai cydnerth

Mae unrhyw Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA) sydd ymysg y 25% uchaf yng Nghymru ar yr IAC a oedd hefyd yn cynnwys o leiaf un Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) ymysg y 10% mwyaf difreintiedig ar WIMD 2019 wedi cael ei nodi fel ardal 'llai cydnerth'.

Mae'r tabl isod yn rhestru pob un o'r LRAau yng Nghymru – gyda data cryno o'r IAC yn cynnwys safleoedd IAC a safleoedd meysydd. Ar ben hynny, rydym wedi nodi'r hyn sy'n sbarduno angen cymunedol ym mhob LRA h.y. y dimensiwn Cydnerthedd Cymunedol y mae pob ardal yn perfformio'n arbennig o wael arno.

Enw LRA	Enw AALI	Safle LRA	Safle IAC	Asedau Dinesig	Natur gysylltiedig	Egñiol Ymgysylltiol	Ysgogydd Angen
Gurnos, Trefechan & Pontsticill	Merthyr Tudful	1	1	167	12	2	Egñiol/Ymgysylltiol
Gorllewin Llanelwyr	Caerdydd	2	5	30	175	5	Egñiol/Ymgysylltiol
Townhill	Abertawe	3	23	316	106	1	Egñiol/Ymgysylltiol
Treherbert	Rhondda Cynon Taf	4	2	34	15	20	Natur gysylltiedig
Penderi	Abertawe	5	19	180	45	13	Egñiol/Ymgysylltiol
Dwyrain Trelái	Caerdydd	6	47	121	167	15	Egñiol/Ymgysylltiol
Betws	Casnewydd	7	8	82	158	3	Egñiol/Ymgysylltiol
Ringland	Casnewydd	8	29	87	161	10	Egñiol/Ymgysylltiol
Penrhawceibr	Rhondda Cynon Taf	9	7	129	30	16	Egñiol/Ymgysylltiol
Gorllewin Caerau	Caerdydd	10	15	14	103	66	Asedau Dinesig
Dyffryn a Maesglas	Casnewydd	11	6	16	151	24	Asedau Dinesig
Trowbridge	Caerdydd	12	43	156	190	8	Egñiol/Ymgysylltiol
Abersychan	Torfaen	13	3	7	54	38	Asedau Dinesig
De Llanelli	Sir Gaerfyrddin	14	45	115	11	218	Natur gysylltiedig
Gorllewin Pontnewydd a'r Ddraenen	Torfaen	15	28	117	149	7	Egñiol/Ymgysylltiol
Gogledd Abertyleri a Chwmtylleri	Blaenau Gwent	16	12	89	7	118	Natur gysylltiedig
Parc Caia	Wrecsam	17	92	295	82	56	Egñiol/Ymgysylltiol
Cefn Mawr	Wrecsam	18	4	24	14	76	Natur gysylltiedig
De Abertyleri a Llanhilledd	Blaenau Gwent	19	26	122	5	162	Natur gysylltiedig
Sandfields	Castell-nedd Port Talbot	20	30	18	308	27	Asedau Dinesig
Rhymni, Pontlotyn ac Abertyswg	Caerffili	21	48	362	27	33	Natur gysylltiedig
Llanedern	Caerdydd	22	11	3	230	70	Asedau Dinesig
Pillgwenlli a'r Dociau	Casnewydd	23	211	349	74	203	Natur gysylltiedig
Sirhywi	Blaenau Gwent	24	18	120	21	44	Natur gysylltiedig
Rasa a Chendl	Blaenau Gwent	25	9	33	68	36	Asedau Dinesig
Caerau	Pen-y-bont ar Ogwr	26	90	184	118	60	Egñiol/Ymgysylltiol
Corneli	Pen-y-bont ar Ogwr	27	10	17	195	23	Asedau Dinesig
Gellideg a'r Dref	Merthyr Tudful	28	55	240	4	286	Natur gysylltiedig
Caerdybi	Ynys Môn	29	33	11	89	165	Asedau Dinesig
Aberaman	Rhondda Cynon Taf	30	31	189	72	11	Egñiol/Ymgysylltiol
Glyncorrwg a Blaengwynfi	Castell-nedd Port Talbot	31	114	397	16	245	Natur gysylltiedig
Y Blaenau a Nant-y-glo	Blaenau Gwent	32	51	127	37	98	Natur gysylltiedig
Tylorstown	Rhondda Cynon Taf	33	104	248	34	181	Natur gysylltiedig
Llansawel	Castell-nedd Port Talbot	34	85	214	179	30	Egñiol/Ymgysylltiol
Tredeggar Newydd a Chwm Darren	Caerffili	35	72	403	58	37	Egñiol/Ymgysylltiol
Ystrad a Llwynypia	Rhondda Cynon Taf	36	69	331	87	28	Egñiol/Ymgysylltiol
Gogledd Dwyrain y Fflint	Sir y Fflint	37	56	44	194	61	Asedau Dinesig

Bynea a Llwynhendy	Sir Gaerfyrddin	38	24	6	271	64	Asedau Dinesig
Gogledd y Rhyl	Sir Ddinbych	39	141	152	63	269	Natur gysylltiedig
Bae Cinmel a Thywyn	Conwy	40	38	21	153	74	Asedau Dinesig
Dwyrain Caerau	Caerdydd	41	237	190	221	154	Egñiol/Ymgysylltiol
Trefddyn a Phen-y-garn	Torfaen	42	131	144	84	200	Natur gysylltiedig
Dwyrain Rhisga	Caerffili	43	16	46	268	6	Egñiol/Ymgysylltiol
De Orllewin y Rhyl	Sir Ddinbych	44	181	308	152	84	Egñiol/Ymgysylltiol
Aberpennar	Rhondda Cynon Taf	45	57	196	20	126	Natur gysylltiedig
Rhosllannerchrugog a De Johnstown	Wrecsam	46	36	101	42	52	Natur gysylltiedig
Ynysowen, Troedyrhiw a Bedlinog	Merthyr Tudful	47	53	402	10	92	Natur gysylltiedig
De Glan yr Afon	Caerdydd	48	339	389	137	327	Natur gysylltiedig
Tredegar a Georgetown	Blaenau Gwent	49	34	169	22	49	Natur gysylltiedig
Treffynnon a Bagillt	Sir y Fflint	50	32	40	29	151	Natur gysylltiedig
Doc Penfro	Sir Benfro	51	70	39	123	185	Asedau Dinesig
Gibbonsdown	Bro Morgannwg	52	83	107	306	35	Egñiol/Ymgysylltiol
Trefynwy a Wyesham	Sir Fynwy	53	13	28	8	332	Natur gysylltiedig
Hen Golwyn a Llanddulas	Conwy	54	20	1	202	141	Asedau Dinesig
Clydach a Mawr	Abertawe	55	27	12	73	161	Asedau Dinesig
Nant-y-moel, Bro Ogwr a Melin Ifan Ddu	Pen-y-bont ar Ogwr	56	59	391	78	17	Egñiol/Ymgysylltiol
Bargoed	Caerffili	57	86	110	114	99	Egñiol/Ymgysylltiol
Gogledd y Fenni	Sir Fynwy	58	37	171	6	152	Natur gysylltiedig
Gogledd Llanrhyddni	Caerdydd	59	74	50	357	50	Egñiol/Ymgysylltiol
Adamsdown	Caerdydd	60	343	324	220	268	Natur gysylltiedig
Llanbradach a Phenyrheol	Caerffili	61	35	10	299	58	Asedau Dinesig
De Bwcle	Sir y Fflint	62	17	31	182	18	Egñiol/Ymgysylltiol
Glynrhedynog a Maerdy	Rhondda Cynon Taf	63	158	408	55	140	Natur gysylltiedig
Gorllewin Aberdaugleddau	Sir Benfro	64	71	67	122	112	Asedau Dinesig
Aberafan	Castell-nedd Port Talbot	65	148	77	247	148	Asedau Dinesig
Y Rhws a'r Maes Awyr	Bro Morgannwg	66	14	4	97	158	Asedau Dinesig
Abergele	Conwy	67	25	2	108	270	Asedau Dinesig
Hirwaun a Rhigos	Rhondda Cynon Taf	68	99	347	32	129	Natur gysylltiedig
Dowlais	Merthyr Tudful	69	60	91	164	42	Egñiol/Ymgysylltiol
De Castell-nedd	Castell-nedd Port Talbot	70	63	202	285	9	Egñiol/Ymgysylltiol
Y Tyllgoed a Greenmeadow	Torfaen	71	22	13	346	26	Asedau Dinesig
Aberbargoed a Gilfach	Caerffili	72	180	323	138	88	Egñiol/Ymgysylltiol
Pengam a Chefn Fforest	Caerffili	73	101	313	200	22	Egñiol/Ymgysylltiol
Gogledd Glynebwy a Glyncoed	Blaenau Gwent	74	61	141	47	96	Natur gysylltiedig
Ravenhill	Abertawe	75	170	209	192	89	Egñiol/Ymgysylltiol
Treharris a Threlewis	Merthyr Tudful	76	39	69	95	47	Egñiol/Ymgysylltiol

Sblot	Caerdydd	77	398	356	318	333	Natur gysylltiedig
Llyswry ac Aber-wysg	Casnewydd	78	162	148	259	87	Egñiol/Ymgysylltiol
Brynmawr	Blaenau Gwent	79	79	124	48	172	Natur gysylltiedig
Hermitage a Whitegate	Wrecsam	80	100	301	41	119	Natur gysylltiedig
Gorllewin Dinbych	Sir Ddinbych	81	129	275	24	319	Natur gysylltiedig
Glandŵr	Abertawe	82	276	315	184	159	Egñiol/Ymgysylltiol
Aberteifi ac Aberporth	Ceredigion	83	46	188	1	398	Natur gysylltiedig
Blaenau Ffestiniog a Thrawsfynydd	Gwynedd	84	50	178	3	352	Natur gysylltiedig
Gorllewin Tonypanyd a Chwm Clydach	Rhondda Cynon Taf	85	127	204	93	111	Natur gysylltiedig
De Glynebwy a Chwm	Blaenau Gwent	86	91	368	25	132	Natur gysylltiedig
Dwyrain Aberdaugleddau	Sir Benfro	87	80	80	107	131	Asedau Dinesig
Llanilltud Fawr	Bro Morgannwg	88	21	5	109	167	Asedau Dinesig
Cwmbrân	Torfaen	89	216	268	120	174	Natur gysylltiedig
De Cil-y-coed	Sir Fynwy	90	41	20	127	114	Asedau Dinesig
De Llanrhymini	Caerdydd	91	121	158	253	48	Egñiol/Ymgysylltiol
Cwm Aber	Caerffili	92	146	399	134	51	Egñiol/Ymgysylltiol
Gorllewin Porth	Rhondda Cynon Taf	93	202	265	85	217	Natur gysylltiedig
Dwyrain Maesteg	Pen-y-bont ar Ogwr	94	133	66	157	237	Asedau Dinesig
Tref Castell-nedd	Castell-nedd Port Talbot	95	224	219	105	261	Natur gysylltiedig
De'r Drenwydd	Powys	96	217	237	236	100	Egñiol/Ymgysylltiol
Rhydaman a Betws	Sir Gaerfyrddin	97	67	41	65	301	Asedau Dinesig
Ystradgynlais a Tawe Uchaf	Powys	98	65	71	39	276	Natur gysylltiedig
Gorllewin Trelái	Caerdydd	99	76	55	233	78	Asedau Dinesig
Tremorfa a Phengam	Caerdydd	100	322	208	266	249	Asedau Dinesig
De Treforys	Abertawe	101	128	79	292	95	Asedau Dinesig
Beddau a Thynant	Rhondda Cynon Taf	102	42	43	338	19	Egñiol/Ymgysylltiol

## Atodiad B rhestr o ddangosyddion yn yr adroddiad

Thema	Data	Ffynhonnell data / cyfnod amser	Dyddiad cyhoeddi
Poblogaeth	Cyfanswm y boblogaeth ac yn ôl oedran	Amcangyfrifon Canol Blwyddyn (ONS) 2020	Yn flynyddol (cyhoeddwyd ym mis Medi 2021)
	Poblogaeth yn ôl ethnigrwydd	Cyfrifiad 2011	Bob 10 mlynedd (cyhoeddwyd Awst 2013)
	Poblogaeth yn ôl gwlad enedigol	Cyfrifiad 2011	Bob 10 mlynedd (cyhoeddwyd Awst 2013)
	Gallu siarad Cymraeg	Cyfrifiad 2011	Bob 10 mlynedd (cyhoeddwyd Awst 2013)

	Poblogaeth yn ôl cyfansoddiad aelwydydd	Cyfrifiad 2011	Bob 10 mlynedd (cyhoeddwyd Awst 2013)
Tai	Dadansoddiadau o'r math o annedd	Cyfrifiad 2011	Bob 10 mlynedd (cyhoeddwyd Awst 2013)
	Dadansoddiadau o ddaliadaeth tai	Cyfrifiad 2011	Bob 10 mlynedd (cyhoeddwyd Awst 2013)
	Prisiau tai cyfartalog yn ôl math o dai	Y Gofrestrfa Tir Rhagfyr-20 i Tach-21	Chwarterol (cyhoeddwyd Ionawr 2022)
	Oed annedd	Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) 2021	Yn flynyddol (cyhoeddwyd ym mis Medi 2021)
Cyflogaeth a diweithdra	Credyd Cynhwysol yn ôl Amodau	Yr Adran Gwaith a Phensiynau Chwefror-22	Misol (cyhoeddwyd Ionawr 2022)
	Budd-dal diweithdra (JSA a Chredyd Cynhwysol)	Yr Adran Gwaith a Phensiynau Chwefror-22	Misol (cyhoeddwyd Ionawr 2022)
Troseddu a diogelwch	Troseddau a gofnodwyd	Heddlu y DU Rhag-20 i Tach-21	Chwarterol (cyhoeddwyd Ionawr 2022)
Iechyd a lles	Disgwyliad oes	ONS 2015-2019	Afreolaidd (cyhoeddwyd 2021)
	Disgwyliad Oes Iach	ONS 2009-2013	Blynyddol (cyhoeddwyd 2016)
	Cyfradd marwolaethau o achosion allweddol (cyfradd safonedig yn ôl oedran fesul 100,000)	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014	Afreolaidd (cyhoeddwyd 2014)
	Achosion o Ganser (cyfradd safonedig yn ôl oedran fesul 100,000)	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019	Afreolaidd (cyhoeddwyd 2019)
	Pobl sydd â salwch tymor hir cyfyngol	Cyfrifiad 2011	Bob 10 mlynedd (cyhoeddwyd Awst 2013)
	Cyfradd hawlio Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)	Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) Ionawr 2022	Chwarterol (cyhoeddwyd 2022)
	Pobl sy'n darparu gofal di-dâl	Cyfrifiad 2011	Bob 10 mlynedd (cyhoeddwyd Awst 2013)
	Gofal di-dâl (dros 50 awr yr wythnos)	Cyfrifiad 2011	Bob 10 mlynedd (cyhoeddwyd Awst 2013)
Addysg a sgiliau	Cymwysterau yn ôl lefel	Cyfrifiad 2011	Bob 10 mlynedd (cyhoeddwyd Awst 2013)
	Cyfranogiad mewn Addysg Uwch	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019	Afreolaidd (cyhoeddwyd 2019)
	Cyrhaeddiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019	Afreolaidd (cyhoeddwyd 2019)
Yr Economi	Incwm blynyddol y cartref	ONS 2017/18	Afreolaidd (cyhoeddwyd Mawrth 2020)
	Incwm blynyddol y cartref, ar ôl costau tai	ONS 2017/18	Afreolaidd (cyhoeddwyd Mawrth 2020)
	Proffil galwedigaeth	Cyfrifiad 2011	Bob 10 mlynedd (cyhoeddwyd Awst 2013)
	Dwysedd swyddi	Cofrestr Busnesau ac Arolwg Cyflogaeth (BRES) (2020)	Blynyddol (cyhoeddwyd Tachwedd 2020)
Mynediad a Thrafnidiaeth	Perchnogaeth ceir yn ôl rhif	Cyfrifiad 2011	Bob 10 mlynedd (cyhoeddwyd Awst 2013)
	Mynegai Cydnerthedd Cymunedol	OCSI 2022	Afreolaidd
	Asedau sy'n eiddo i'r gymuned (cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth)	Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau (mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Canolfan	

Cymunedau a'r amgylchedd	Y nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau lleol (%)	Cydweithredol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo) Y Comisiwn Etholiadol <a href="https://www.electoralcommission.org.uk/who-we-are-and-what-we-do/elections-and-referendums/past-elections-and-referendums/european-parliamentary-elections/report-may-2019-european-parliamentary-elections-and-local-elections">https://www.electoralcommission.org.uk/who-we-are-and-what-we-do/elections-and-referendums/past-elections-and-referendums/european-parliamentary-elections/report-may-2019-european-parliamentary-elections-and-local-elections</a>	
	Mudiadau'r trydydd sector (cyfradd fesul 100,000)	Comisiwn Elusennau <a href="https://charitybase.uk/chc">https://charitybase.uk/chc</a> . Co-operatives UK <a href="https://www.uk.coop.uk">https://www.uk.coop.uk</a> , Tŷ'r Cwmnïau <a href="http://download.companieshouse.gov.uk/en_output.html">http://download.companieshouse.gov.uk/en_output.html</a> , gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol <a href="https://mutuals.fca.org.uk/">https://mutuals.fca.org.uk/</a>	
	Cyllid Cymunedol y Loteri Genedlaethol y pen	Data Grant 360 Giving <a href="https://grantnav.threesixtygiving.org/">https://grantnav.threesixtygiving.org/</a>	
	Cyllid grant y pen gan gyllidwyr grantiau mawr	Data Grant 360 Giving <a href="https://grantnav.threesixtygiving.org/">https://grantnav.threesixtygiving.org/</a>	
	Ymddiriedolwyr elusennau (fesul 100,000 o'r boblogaeth)	Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru / Sefydliad Materion Cymreig, Deall Lleoedd Cymru, cyhoeddiad Rhagfyr 2020 <a href="http://www.understandingwelshplaces.wales/en/">http://www.understandingwelshplaces.wales/en/</a>	
	Busnesau Cynhyrchiol fesul 100,000 o'r boblogaeth	Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru / Sefydliad Materion Cymreig, Deall Lleoedd Cymru, cyhoeddiad Rhagfyr 2020 <a href="http://www.understandingwelshplaces.wales/en/">http://www.understandingwelshplaces.wales/en/</a>	



Atodiad C:Indecs Asedau Cymunedol: Pob MSOA yng Nghymru

Enw MSOA	Enw AALI	Safle IAC	Asedau Dinesig	Natur gysylltiedig	Cymuned Egniol Ymgysylltiol	Safle Cyfartalog Safle WIMD 2019
Merthyr Tudful - Gurnos, Trefechan & Pontsticill	Merthyr Tudful	1	167	12		2 10
Rhondda Cynon Taf - Treherbert	Rhondda Cynon Taf	2	34	15		20 29
Torfaen - Abersychan	Torfaen	3	7	54		38 93
Wrecsam - Cefn Mawr	Wrecsam	4	24	14		76 134
Caerdydd - Gorllewin Llaneirwg	Caerdydd	5	30	175		5 4
Casnewydd - Dyffryn a Maesglas	Casnewydd	6	16	151		24 51
Rhondda Cynon Taf - Penrhiwceibr	Rhondda Cynon Taf	7	129	30		16 23
Casnewydd - Betws	Casnewydd	8	82	158		3 18
Blaenau Gwent - Rasa a Beaufort	Blaenau Gwent	9	33	68		36 125
Pen-y-bont ar Ogwr - Corneli	Pen-y-bont ar Ogwr	10	17	195		23 118
Caerdydd - Llanedeyrn	Caerdydd	11	3	230		70 82
Blaenau Gwent - Gogledd Abertyleri a Chwmtlyeri	Blaenau Gwent	12	89	7		118 60
Sir Fynwy - Mynwy a Wyesham	Sir Fynwy	13	28	8		332 273
Bro Morgannwg – Y Rhws a’r Maes Awyr	Bro Morgannwg	14	4	97		158 349
Caerdydd - Gorllewin Caerau	Caerdydd	15	14	103		66 22
Caerffili - Dwyrain Rhisga	Caerffili	16	46	268		6 181
Sir y Fflint - De Bwcle	Sir y Fflint	17	31	182		18 268
Blaenau Gwent - Sirhywi	Blaenau Gwent	18	120	21		44 71
Abertawe - Penderi	Abertawe	19	180	45		13 6
Conwy - Hen Golwyn a Llanddulas	Conwy	20	1	202		141 205
Bro Morgannwg - Llanilltud Fawr	Bro Morgannwg	21	5	109		167 358
Torfaen - Y Tyllgoed a Greenmeadow	Torfaen	22	13	346		26 255
Abertawe - Townhill	Abertawe	23	316	106		1 2
Sir Gaerfyrddin - Bynea a Llwynhendy	Sir Gaerfyrddin	24	6	271		64 122
Conwy - Abergele	Conwy	25	2	108		270 216
Blaenau Gwent - De Abertyleri a Llanhilledd	Blaenau Gwent	26	122	5		162 35
Abertawe - Clydach a Mawr	Abertawe	27	12	73		161 164
Torfaen - Gorllewin Pontnewydd a’r Ddraenen	Torfaen	28	117	149		7 28
Casnewydd - Ringland	Casnewydd	29	87	161		10 5
Castell-nedd Port Talbot - Sandfields	Castell-nedd Port Talbot	30	18	308		27 31
Rhondda Cynon Taf - Aberaman	Rhondda Cynon Taf	31	189	72		11 50
Sir y Fflint - Treffynnon a Bagillt	Sir y Fflint	32	40	29		151 113

Ynys Môn - Caergybi	Ynys Môn	33	11	89	165	46
Blaenau Gwent - Tredegar a Georgetown	Blaenau Gwent	34	169	22	49	107
Caerffili - Llanbradach a Phenyrheol	Caerffili	35	10	299	58	142
Wrecsam - Rhosllanerchrugog a De Johnstown	Wrecsam	36	101	42	52	99
Sir Fynwy - Gogledd y Fenni	Sir Fynwy	37	171	6	152	128
Conwy - Bae Cinmel a Thowyn	Conwy	38	21	153	74	83
Merthyr Tudful - Treharris a Threlewis	Merthyr Tudful	39	69	95	47	166
Rhondda Cynon Taf - Gorllewin Pentre'r Eglwys	Rhondda Cynon Taf	40	47	394	14	400
Sir Fynwy - De Cil-y-coed	Sir Fynwy	41	20	127	114	220
Rhondda Cynon Taf - Beddau a Thyn-y-nant	Rhondda Cynon Taf	42	43	338	19	241
Caerdydd - Trowbridge	Caerdydd	43	156	190	8	9
Gwynedd - Abermaw a Dolgellau	Gwynedd	44	179	2	329	236
Sir Gaerfyrddin – De Llanelli	Sir Gaerfyrddin	45	115	11	218	13
Ceredigion - Aberteifi ac Aber-porth	Ceredigion	46	188	1	398	160
Caerdydd - Dwyrain Trelái	Caerdydd	47	121	167	15	1
Caerffili - Rhymni, Pontlotyn ac Abertyswg	Caerffili	48	362	27	33	20
Pen-y-bont ar Ogwr - Gorllewin Bracla	Pen-y-bont ar Ogwr	49	154	336	4	239
Gwynedd - Blaenau Ffestiniog & Trawsfynydd	Gwynedd	50	178	3	352	154
Blaenau Gwent - Blaenau a Nant-y-glo	Blaenau Gwent	51	127	37	98	40
Sir Gaerfyrddin - Swiss Valley a Llangennech	Sir Gaerfyrddin	52	9	297	135	331
Merthyr Tudful - Ynysowen, Troed-y-rhiw a Bedlinog	Merthyr Tudful	53	402	10	92	69
Abertawe - Gorseinon	Abertawe	54	23	241	80	196
Merthyr Tudful - Gellideg a Thref	Merthyr Tudful	55	240	4	286	26
Sir y Fflint - Gogledd Ddwyrain y Fflint	Sir y Fflint	56	44	194	61	53
Rhondda Cynon Taf - Aberpennar	Rhondda Cynon Taf	57	196	20	126	63
Castell-nedd Port Talbot - Pontardawe	Castell-nedd Port Talbot	58	26	100	207	210
Pen-y-bont ar Ogwr - Nant-y-moel, Bro Ogwr a Melin Ifan Ddu	Pen-y-bont ar Ogwr	59	391	78	17	80
Merthyr Tudful - Dowlais	Merthyr Tudful	60	91	164	42	101
Blaenau Gwent - Gogledd Glynebwy a Glyncoed	Blaenau Gwent	61	141	47	96	106
Sir Benfro - Abergwaun	Sir Benfro	62	57	31	358	221
Castell-nedd Port Talbot - De Castell-nedd	Castell-nedd Port Talbot	63	202	285	9	97
Castell-nedd Port Talbot - Sgiwen a Jersey Marine	Castell-nedd Port Talbot	64	36	258	77	173
Powys - Ystradgynlais a Tawe Uchaf	Powys	65	71	39	276	157

Abertawe - West Cross	Abertawe	66	125	53	124	282
Sir Gaerfyrddin – Rhydaman a Betws	Sir Gaerfyrddin	67	41	65	301	151
Abertawe - Birchgrove	Abertawe	68	27	373	79	306
Rhondda Cynon Taf - Ystrad a Llwynypia	Rhondda Cynon Taf	69	331	87	28	39
Sir Benfro - Doc Penfro	Sir Benfro	70	39	123	185	56
Sir Benfro - Gorllewin Aberdaugleddau	Sir Benfro	71	67	122	112	77
Caerffili - Tredegar Newydd a Chwm Darren	Caerffili	72	403	58	37	37
Caerffili - De Crosskeys ac Ynys-ddu	Caerffili	73	266	113	29	176
Caerdydd - Gogledd Llanrhyddi	Caerdydd	74	50	357	50	67
Sir Fynwy - De'r Fenni a Crucornau	Sir Fynwy	75	218	9	385	298
Caerdydd - Gorllewin Trelái	Caerdydd	76	55	233	78	135
Abertawe - Gogledd Treforys	Abertawe	77	53	348	54	296
Sir Ddinbych - Gogledd Prestatyn	Sir Ddinbych	78	78	146	91	139
Blaenau Gwent - Bryn-mawr	Blaenau Gwent	79	124	48	172	88
Sir Benfro - Dwyrain Aberdaugleddau	Sir Benfro	80	80	107	131	102
Caerdydd - Pontprennau	Caerdydd	81	8	406	248	383
Torfaen - Hollybush a Henllys	Torfaen	82	35	372	86	328
Bro Morgannwg – Gibbonsdown	Bro Morgannwg	83	107	306	35	49
Conwy - Llandrillo yn Rhos	Conwy	84	42	121	231	313
Castell-nedd Port Talbot – Llansawel	Castell-nedd Port Talbot	85	214	179	30	27
Caerffili – Bargoed	Caerffili	86	110	114	99	55
Sir Ddinbych – Dwyrain y Rhyl	Sir Ddinbych	87	81	283	55	194
Casnewydd - Beechwood	Casnewydd	88	325	170	21	123
Pen-y-bont ar Ogwr - Y Pîl, Mynydd Cynffig a Chefncribwr	Pen-y-bont ar Ogwr	89	32	261	149	131
Pen-y-bont ar Ogwr - Caerau	Pen-y-bont ar Ogwr	90	184	118	60	13
Blaenau Gwent - De Glynebwy a Chwm	Blaenau Gwent	91	368	25	132	89
Wrecsam - Parc Caia	Wrecsam	92	295	82	56	7
Gwynedd - Abersoch & Aberdaron	Gwynedd	93	182	19	359	266
Sir y Fflint - Mostyn a Holway	Sir y Fflint	94	106	101	137	199
Gwynedd - Tywyn & Llangelynnin	Gwynedd	95	256	13	365	243
AE2b: Cryfder cysylltiadau cymdeithasol lleol	<p>Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys dangosyddion allweddol o gryfder cysylltiadau cymdeithasol lleol.</p> <p>Rydym wedi archwilio setiau data o fersiynau 2012/13, 2013/14, 2014/15, 2016/17, 2017/18, 2018/19 a 2019/20 o'r arolwg er mwyn cynhyrchu mesur cyfansawdd o gyfranogiad. Cyhoeddir arolygon 2012/14, 2013/14 a 2014/15 gyda'r Dosbarthiad Ardal Gynnyrch cysylltiedig ar gyfer pob ymatebydd yn yr arolwg. Gan ddefnyddio'r Dosbarthiad Ardal Gynnyrch, mae'n bosibl dosrannu cyfraddau ymateb i lefel yr Ardal Gynnyrch gan ddyrannu cyfraddau ymateb (%) i bob Ardal Gynnyrch ar sail aelodaeth is-grŵp eu Dosbarthiad Ardal Gynnyrch. Yna, cyfunir data o'r Ardal Gynnyrch i ddarparu amcangyfrif o'r cyfraddau ar gyfer dangosyddion allweddol ar gyfer MSOAau. Mae 2016/17, 2017/18, 2018/19 a 2019/20 yn cael eu cyhoeddi yn ôl Awdurdod Lleol a WIMD. Gan ddefnyddio cyfuniad o'r newidynnau hyn mae'n bosibl dosrannu cyfraddau ymateb i lefel LSOA gan ddyrannu cyfraddau ymateb (%) i bob LSOA ar sail eu sgôr WIMD a'u rhiant Awdurdod Lleol. Yna, cyfunir dangosyddion dros nifer o flynyddoedd i roi hwb i faint y sampl a gwella cadernid yr amcangyfrifon. Mae'r dangosyddion canlynol wedi'u cynnwys (gyda blynyddoedd yr arolwg mewn cromfachau):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● Cytuno neu'n cytuno'n gryf bod modd ymddiried yn y rhan fwyaf o bobl (2016/17)</li> <li>● Yn tueddu i gytuno neu gytuno'n gryf fy mod yn teimlo'n perthyn i'r ardal leol (2012/13, 2013/14, 2016/17, 2018/19)</li> <li>● Yn tueddu i gytuno neu gytuno'n gryf bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn yr ardal leol (2012/13, 2013/14, 2016/17, 2018/19)</li> <li>● Yn tueddu i gytuno neu gytuno'n gryf bod pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth (2012/13, 2013/14, 2016/17, 2018/19)</li> </ul>	<p>Arolwg Cenedlaethol Cymru/Dosbarthiad Ardal Gynnyrch 2011: ONS  <a href="https://www.data-archive.ac.uk/">Data trwyddedig – mynediad drwy archif data'r DU https://www.data-archive.ac.uk/</a></p>	2012/13, 2013/14, 2016/17, 2018/19	Ardal Gynnyrch/LSOA	<p>Mae'r data'n cael ei greu o arolwg gyda maint sampl bach. Mae data wedi cael ei ddsrannu i lawr i lefel Ardal Gynnyrch gan ddefnyddio aelodaeth grŵp Dosbarthiad Ardal Gynnyrch – (sy'n grwpio Ardaloedd Cynnyrch gyda'i gilydd ar sail eu nodweddion economaidd-gymdeithasol a rennir) a chwintel Awdurdod Lleol/WIMD 2019. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau hyn ar lefel ardal fach oherwydd maint sampl bach yr arolwg. Defnyddiwyd pedair blynedd o ddata i gynyddu maint y gyfradd ymateb.</p>

Dangosydd	Manylion	Ffynhonnell	Dyddiad	Gronynedd	Nodiadau/Cafeatau
AE3: Cyfranogiad diwylliannol a hamdden	<p>Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys dangosyddion allweddol o gyfranogiad diwylliannol a chwaraeon.</p> <p>Rydym wedi archwilio setiau data o fersiynau 2012/13, 2013/14, 2014/15, 2016/17, 2017/18, 2018/19 a 2019/20 o'r arolwg er mwyn cynhyrchu mesur cyfansawdd o gyfranogiad. Cyhoeddir arolygon 2012/14, 2013/14 a 2014/15 gyda'r Dosbarthiad Ardal Gynnyrch cysylltiedig ar gyfer pob ymatebydd yn yr arolwg. Gan ddefnyddio'r Dosbarthiad Ardal Gynnyrch, mae'n bosibl dosrannu cyfraddau ymateb i lefel yr Ardal Gynnyrch gan ddyrannu cyfraddau ymateb (%) i bob Ardal Gynnyrch ar sail aelodaeth is-grŵp eu Dosbarthiad Ardal Gynnyrch. Yna, cyfunir data o'r Ardal Gynnyrch i ddarparu amcangyfrif o'r cyfraddau ar gyfer dangosyddion allweddol ar gyfer MSOAau. Mae 2016/17, 2017/18, 2018/19 a 2019/20 yn cael eu cyhoeddi yn ôl Awdurdod Lleol a WIMD. Gan ddefnyddio cyfuniad o'r newidynnau hyn mae'n bosibl dosrannu cyfraddau ymateb i lefel LSOA gan ddyrannu cyfraddau ymateb (%) i bob LSOA ar sail eu sgôr WIMD a'u rhiant Awdurdod Lleol. Yna, cyfunir dangosyddion dros nifer o flynyddoedd i roi hwb i faint y sampl a gwella cadernid yr amcangyfrifon. Mae'r dangosyddion canlynol wedi'u cynnwys (gyda blynyddoedd yr arolwg mewn cromfachau):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi bod yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch corfforol (2017/18, 2018/19, 2019/20)</li> <li>• Wedi ymweld ag oriel/digwyddiad celf yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf (2014/15)</li> <li>• Wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf (2014/15)</li> <li>• Wedi ymweld â safle treftadaeth yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf (2014/15)</li> </ul>	<p>Arolwg Cenedlaethol Cymru/Dosbarthiad Ardal Gynnyrch 2011: ONS  <a href="#">Data trwyddedig – mynediad drwy archif data'r DU</a>  <a href="https://www.data-archive.ac.uk/">https://www.data-archive.ac.uk/</a></p>	<p>2014/15, 2017/18, 2018/19 a 2019/20</p>	<p>Ardal Gynnyrch/LSOA</p>	<p>Mae'r data'n cael ei greu o arolwg gyda maint sampl bach. Mae data wedi cael ei ddsrannu i lawr i lefel Ardal Gynnyrch gan ddefnyddio aelodaeth grŵp Dosbarthiad Ardal Gynnyrch – (sy'n grwpio Ardaloedd Cynnyrch gyda'i gilydd ar sail eu nodweddion economaidd-gymdeithasol a rennir) a chwintel Awdurdod Lleol/WIMD 2019. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau hyn ar lefel ardal fach oherwydd maint sampl bach yr arolwg. Defnyddiwyd pedair blynedd o ddata i gynyddu maint y gyfradd ymateb.</p>

Dangosydd	Manylion	Ffynhonnell	Dyddiad	Gronynedd	Nodiadau/Cafeatau
AE4: Sefydliadau trydydd sector	<p>Cyfrif nad yw'n goryffwrdd o</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Elusennau cofrestredig gan Charity Base</li> <li>2) Cymdeithasau cydweithredol gan Co-operatives UK</li> <li>3) Sefydliadau Corfforedig Elusenol, Cwmnïau Buddiannau Cymunedol, PRI/CYF DRWY WARRANT/NSC (Preifat, cyfyngedig drwy warant, dim cyfalaf cyfranddaliadau) a Chymdeithasau Cofrestredig o Dŷ'r Cwmnïau</li> <li>4) Cymdeithasau cydweithredol, cymdeithasau budd cymunedol, a chymdeithasau diwydiannol a darbodus blaenorol gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol</li> </ol> <p>Mae'r ffigur yn cael ei fynegi fel cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth.</p>	<p><b>Comisiwn Elusennau</b>  <a href="https://charitybase.uk/chc">https://charitybase.uk/chc</a> . Co-operatives UK  <a href="https://www.uk.coop/uk">https://www.uk.coop/uk</a> , Tŷ'r Cwmnïau  <a href="http://download.companieshouse.gov.uk/en_output.html">http://download.companieshouse.gov.uk/en_output.html</a> , gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol  <a href="https://mutuals.fca.org.uk/">https://mutuals.fca.org.uk/</a></p>	2021	Cod post	<p>Mae hyn yn seiliedig ar leoliad sefydliadau yn hytrach nag ar eu maes gwaith (bydd gan rai ffocws byd-eang). Mae elusennau mwy wedi'u heithrio o'r mesur hwn. Mae'r dangosydd hwn wedi'i gynnwys yn y thema hon i gofnodi lefel gweithgarwch y trydydd sector yn yr ardal leol.</p> <p>Mae sefydliadau sydd â ffocws cenedlaethol neu ryngwladol yn unig wedi cael eu heithrio, er mwyn sicrhau mai dim ond sefydliadau sydd â ffocws lleol sy'n cael eu cynnwys. Mae rhai sefydliadau'n ymddangos ar fwy nag un gofrestr – mae cofnodion dyblyg wedi cael eu dileu, felly dim ond cofnodion unigryw sydd ar ôl. Bydd hyn yn eithrio cwmnïau llai nad ydynt wedi cofrestru ac yn eithrio mentrau cydweithredol, cymdeithasau budd cymunedol, cymdeithasau, ymddiriedolaethau a phartneriaethau (o wahanol fathau).</p>

Dangosydd	Manylion	Ffynhonnell	Dyddiad	Gronynnedd	Nodiadau/Cafeatau
AE5: Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol	Cyfanswm cyfun y grantiau a roddwyd i brosiectau a mudiadau lleol gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol rhwng 2004 a 2021 fesul 1,000 o'r boblogaeth (£). Daw'r ffigurau o ddata am grantiau a roddir i brosiectau a mudiadau mewn ardaloedd lleol yn y DU gan y Gronfa Loteri Fawr, o ddata grantiau a gyhoeddwyd gan y Loteri Fawr ar y cyd â'r cynllun 360Giving. Defnyddiodd y Loteri Fawr y safon 360Giving i gynhyrchu ffeil o'r holl grantiau a roddwyd yn 2004-2021.	<a href="https://grantnav.threesixtygiving.org/">Y Loteri Genedlaethol (drwy 360 Giving) https://grantnav.threesixtygiving.org/</a>	2004-2021	Lefel ward	Wedi'i gynnwys yn y thema cymuned egniol/ymgysylltiol i gofnodi lefel gweithgarwch y trydydd sector yn yr ardal leol.

<p>AE6: Cyllid grant y pen gan gyllidwyr grantiau mawr</p>	<p>Cyllid grant cyfun gan fudiadau sy'n rhoi grantiau y mae eu data wedi bod yn ddarostyngedig i'r safon 360giving (y pen o'r boblogaeth).  Mae'r sefydliadau canlynol wedi'u cynnwys:  A B Charitable Trust, Access to Justice Foundation, Andrew Lloyd Webber Foundation, Barrow Cadbury Trust, CHK Foundation, Cabinet Office, Calouste Gulbenkian Foundation, UK Branch, Co-operative Group, Coop Foundation, Department for Business, Energy and Industrial Strategy, Department for Culture, Media and Sport, Department for Digital, Culture, Media &amp; Sport, Department for Digital, Culture, Media and Sport, Department for Education, Department for Environment, Food and Rural Affairs, Department for International Development, Department for International Trade, Department for Transport, Department for Work and Pensions, Department of Health, Department of Health and Social Care, Esme Fairbairn Foundation, Gatsby Charitable Foundation, HM Revenue &amp; Customs, Hazelhurst Trust, Home Office, Imperial Health Charity, Indigo Trust, John Ellerman Foundation, John Moores Foundation, Joseph Levy Foundation, LGBT Consortium, LandAid Charitable Trust, Lloyd's Register Foundation, Lloyds Bank Foundation for England and Wales, London Marathon Charitable Trust, Masonic Charitable Foundation, Mercers' Charitable Foundation, Ministry for Housing, Communities and Local Government, Ministry of Defence, Ministry of Housing, Communities &amp; Local Government, Ministry of Justice, National Churches Trust, National Emergencies Trust, Nationwide Foundation, Nesta, Nuffield Foundation, OVO Foundation, Paul Hamlyn Foundation, Pears Foundation, Power to Change Trust, Rank Foundation, Road Safety Trust, Rothschild Foundation, Samworth Foundation, Sport England, Staples Trust, Tedworth Charitable Trust, The AIM Foundation, The Badur Foundation, The Bishop Radford Trust, The Blagrave Trust, The Clothworkers Foundation, The David &amp; Elaine Potter Foundation, The Dulverton Trust, The Dunhill Medical Trust, The Fore, The Henry Smith Charity, The Joseph Rank Trust, The Michael And Betty Little Trust, The Pilgrim Trust, The Rayne Foundation, The Seafarers'</p>	<p><a href="https://grantnav.threesixtygiving.org/">Data Grant 360 Giving https://grantnav.threesixtygiving.org/</a></p>	<p>Hyd at 2021</p>	<p>Lefel cod post<sup>11</sup></p>	<p>Mae'r data'n seiliedig ar leoliad y rhai sy'n derbyn grantiau yn hytrach na lleoliad eu buddiolwyr. Mae'r dangosydd hwn wedi'i gynnwys yn y thema hon i gofnodi lefel gweithgarwch y trydydd sector yn yr ardal leol. Mae grantiau dros £1m wedi'u heithrio er mwyn sicrhau bod mentrau lleol yn cael eu cynnwys yn hytrach na gweithgarwch cenedlaethol. Ehangwyd y mesur i gynnwys yr holl Gyllidwyr Grant sydd â ffocws cenedlaethol (e.e. ddim yn canolbwyntio ar un rhan o'r wlad yn unig<sup>12</sup>) lle mae gwybodaeth ddaearyddol yn cael ei darparu.</p>
--	---	--	--------------------	------------------------------------	--

---

<sup>11</sup>Dim ond cyfeiriadau at dderbynwyr Awdurdodau Lleol y mae Comic Relief a Phlant mewn Angen yn eu darparu. Bydd y data hwn yn cael ei ddyrannu i'r ardal leol drwy ddsrannu

<sup>12</sup>Mae rhoddwyr grantiau sydd â ffocws ar faes penodol e.e. mae Sefydliadau Cymunedol wedi cael eu heithrio i liniaru yn erbyn adlewyrchu i ba raddau y mae rhoddwyr grantiau lleol wedi cyflwyno data i GrantNav e.e. Nid yw pob Sefydliad Cymunedol wedi cyflwyno data i Grant Nav ac rydym am ymwrthod rhag cyflwyno rhagfarn systematig yn y data drwy gynnwys data ar gyfer rhai rhanbarthau ac eithrio eraill.

Dangosydd	Manylion	Ffynhonnell	Dyddiad	Gronynedd	Nodiadau/Cafeatau
	Charity, The Segelman Trust, The Tudor Trust, Three Guineas Trust, True Colours Trust, Tuixen Foundation, Virgin Money Foundation, Vision Foundation, Wates Family Enterprise Trust, Wates Foundation, William Grant Foundation, Wolfson Foundation, Woodward Charitable Trust, ZING, the Trussell Trust				
AE7a: Benthyciadau i fusnesau bach a chanolig gan fanciau	Cyfanswm gwerth benthycia i fusnesau bach a chanolig gan fenthycwyr ariannol allweddol (Barclays, CYBG, Lloyds Banking Group, HSBC, Nationwide Building Society, Royal Bank of Scotland a Santander UK ym Mhrydain Fawr).	UK Finance	Mehefin 2020	Sector cod post	Cymryd pedwar chwarter o ddata benthycia ar lefel y sector cod post. Mae'r data'n cael ei fodelu o'r sector cod post i'r Ardaloedd Allbwn gan ddefnyddio proses chwilio wedi'i bwysoli sy'n seiliedig ar nifer y codau post a rennir rhwng sector cod post ac Ardal Gynnyrch ar y cyd â'r boblogaeth oed gweithio fesul Ardal Gynnyrch. Yna, mae data'n cael ei gyfuno i lefel yr ardal leol i gael cyfanswm gwerth benthyciadau busnesau bach a chanolig ar lefel yr ardal leol.
AE7b: Busnesau bach: Unedau Busnes Lleol gyda 0-4 o weithwyr	Busnesau bach: Busnesau lleol sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW gyda 0-4 o weithwyr fesul 10,000 o'r boblogaeth	Cofrestr Busnesau Ryngadrannol (IDBR)	2020	MSOA	
AE7c: Busnesau Cynhyrchiol	Nifer y Busnesau Cynhyrchiol fesul 100,000 o'r boblogaeth. Mae busnesau cynhyrchiol yn ailfuddsoddi arian dros ben yn y gymuned leol, gan gadw cyfoeth er budd eu lle lleol yn hytrach na gwneud y mwyaf o elw i gyfranddalwyr a pherchnogion.	Deall Lleoedd Cymru <a href="http://www.understandingwelshplaces.wales/en/compare/W38000067/">http://www.understandingwelshplaces.wales/en/compare/W38000067/</a>	2021	MSOA	
AE8 Ymddiriedolwyr elusennau	Nifer ymddiriedolwyr elusennau (fesul 100,000 o'r boblogaeth) Casglwyd data gan y Comisiwn Elusennau.	Deall Lleoedd Cymru <a href="http://www.understandingwelshplaces.wales/en/compare/W38000067/">http://www.understandingwelshplaces.wales/en/compare/W38000067/</a>	2021	MSOA	





## Atodiad E: Methodoleg ar gyfer Cynhyrchu Indecs Asedau Cymunedol.

### Cam 1 Trosi data dangosyddion i lefel MSOA

Mae pob un o'r dangosyddion yn yr IAC yn cael eu cyhoeddi ar lefel ddaeryddol wahanol – fodd bynnag, er mwyn cyd-fynd ag ECNI rydym yn bwriadu cynhyrchu'r IAC ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach (MSOA) Haen Ganol .

MSOA yw'r uned fesur sy'n cael ei ffafrio oherwydd:

- Dim ond ar ôl pob cyfrifiad y maent yn newid, felly maent yn fwy cyson dros amser. Hyd yn oed gyda newidiadau a wnaed oherwydd y cyfrifiad, bydd tua 95% yn aros yr un fath. Maent felly'n cynrychioli daearyddiaeth fwy sefydlog na wardiau.
- Yn gyffredinol, maent i gyd yr un maint (llai na 5,000 o bobl) ond maent yn ddigon mawr fel eu bod yn debyg i faint cyfartalog y wardiau.
- Maent yn llai cysylltiedig â gwleidyddiaeth (cynghorwyr neu ASau) a oedd yn feirniadaeth a godwyd gan rai rhanddeiliaid. Hynny yw, gellir newid ffiniau wardiau ond nid yw MSOAau yn gysylltiedig yn wleidyddol.
- Erbyn hyn, mae ganddynt enwau cymdogaeth (nid dim ond codau) felly maent yn haws eu hadnabod. Maen nhw hefyd yn cael eu defnyddio fwyfwy i ledaenu datganiadau ystadegau – yn fwyaf penodol llwyth achosion COVID-19 – <https://coronavirus.data.gov.uk/>
- Mae'r rhestr o MSOAau 'a adawyd ar ôl' yn dal yn gallu cael ei chysylltu â wardiau ac awdurdodau lleol. Gyda MSOAau, efallai y byddwch yn gweld mwy o wardiau sydd naill ai'n cael eu nodi'n llawn neu'n rhannol fel rhai a 'adawyd ar ôl'.
- Maen nhw'n nythu'n uniongyrchol gydag ardaloedd daearyddol ystadegol llai fel Ardaloedd Allbwn ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach (LSOA) Haen Is heb orfod chwilio am yr hyn sydd fwyaf addas.

Felly, mae angen i ni drosi pob un o'r dangosyddion sylfaenol i ddaearyddiaeth MSOA i'w cynnwys yn y IAC.

Mae'r tabl isod yn amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer trosi dangosyddion i lefel MSOA:

Daearyddiaeth	Dangosyddion	Dull trosi
Cod Post/Lleoliad y Pwynt	Dwysedd asedau manau cymunedol Dwysedd asedau addysgol Dwysedd asedau chwaraeon a hamdden Dwysedd asedau diwylliannol Asedau gwyrdd Asedau adwerthu Cyflymderau band eang Cyllid grant y pen gan gyllidwyr grantiau mawr Sefydliadau trydydd sector Asedau sy'n eiddo i'r gymuned	Defnyddio cyfeiriadur Codau Post y Swyddfa Ystadegau Gwladol <a href="https://geoportal.statistics.gov.uk/datasets/ons-postcode-directory-may-2021/about">https://geoportal.statistics.gov.uk/datasets/ons-postcode-directory-may-2021/about</a> - i gyfuno data Cod Post i lefel Ardal Allbwn. <a href="#">Defnyddio tabl chwilio Ardal Gynnyrch i MSOA i gyfuno data o Ardal Gynnyrch i lefel MSOA</a> . Noder, ar gyfer rhai o'r ardaloedd hyn, mae angen parth clustogi o amgylch pob un o'r MSOAau i ganiatáu mynediad at wasanaethau y tu allan i'r MSOA preswyl.
Ardal Gynnyrch	Aelwydydd heb gar Pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain	<a href="#">Defnyddio tabl chwilio Ardal Gynnyrch i MSOA i gyfuno data o Ardal Gynnyrch i lefel MSOA</a> .
LSOA	Amser teithio i wasanaethau allweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus/cerdded Dwysedd swyddi yn yr ardal leol Lefelau hunan-adrodd o unigrwydd Cyfranogiad dinesig Cryfder cysylltiadau cymdeithasol lleol Cyfranogiad diwylliannol a hamdden	<a href="#">Defnyddio tabl chwilio Ardal Gynnyrch i MSOA i ddosrannu data i Ardal Gynnyrch</a> . <a href="#">Defnyddio tabl chwilio Ardal Gynnyrch i MSOA i gyfuno data o Ardal Gynnyrch i lefel MSOA</a> .
MSOA	Busnesau bach Asedau gwyrdd (Ardal o fannau gwyrdd cyhoeddus) Pellter cyfartalog i'r Parc agosaf, Gardd Gyhoeddus, neu Faes Chwarae Mynegai Unigrwydd – Presgripsiynau Meddygon Teulu ar gyfer Unigrwydd Busnesau cynhyrchiol Ymddiriedolwyr	Defnyddio ffiniau MSOA yn uniongyrchol
Ward etholiadol	Y nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau lleol Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol	<a href="#">Dosrannu data o'r ward berthnasol i'r Ardal Gynnyrch – gan ddefnyddio'r tabl chwilio Ward i Ardal Gynnyrch priodol – gweler <a href="https://geoportal.statistics.gov.uk/datasets/ons::output-area-to-ward-to-local-authority-district-december-2011-lookup-in-england-and-wales/about">https://geoportal.statistics.gov.uk/datasets/ons::output-area-to-ward-to-local-authority-district-december-2011-lookup-in-england-and-wales/about</a> a chymhwyso sgoriau lefel Ward i bob Ardal Gynnyrch</a> . <a href="#">Cyfuno o Ardal Gynnyrch i MSOA gan ddefnyddio'r tabl chwilio Ardal Gynnyrch i MSOA</a> .
TTWA	Dwysedd swyddi yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith	<a href="#">Defnyddio'r sgôr TTWA ar gyfer yr holl Ardaloedd Cynnyrch yn y TTWA gan ddefnyddio'r tabl chwilio LSOA i Ardal Teithio i'r Gwaith</a> . <a href="#">Cyfuno o Ardal Gynnyrch i MSOA gan ddefnyddio'r tabl chwilio Ardal Gynnyrch i MSOA</a> .

Sector Cod Post	Benthyciadau i fusnesau bach a chanolig gan fanciau	Defnyddio'r sgôr Sector Cod Post ar gyfer yr holl Ardaloedd Cynnyrch yn y sector Cod Post gan ddefnyddio'r <a href="#">tabl chwilio Ardal Gynnyrch i Sector Cod Post</a> . Cyfuno o Ardal Gynnyrch i MSOA gan ddefnyddio'r <a href="#">tabl chwilio Ardal Gynnyrch i MSOA</a> .
-----------------	---	---

## Cam 2 Sicrhau Ansawdd y data

Y cam nesaf yw gwirio'n gynhwysfawr ddsbarthiad yr holl ddangosyddion ar lefel MSOA i sicrhau bod yr holl ddangosyddion wedi pasio'r profion addasrwydd perthnasol a'u bod yn addas i'w dadansoddi ymhellach at ddibenion IAC. Mae'r profion hyn yn cynnwys eithrio dangosyddion gyda niferoedd uchel o rifau sero neu derfyn uchaf cyfartal e.e. gwerthoedd 100% a fyddai'n ystumio'r Indec.

## Cam 3 Defnyddio crebachiad i wella cadernid y dangosyddion.

Pan fydd cyfradd neu fesur arall o gydnerthedd cymunedol ar gyfer MSOA yn seiliedig ar niferoedd bach, gall yr amcangyfrif canlyniadol fod yn annibynadwy, gyda chamgymeriad safonol annerbyniol o uchel. Defnyddir y dechneg o amcangyfrif crebachiad i 'fenthycia cryfder' o ardaloedd mwy i gynyddu dibynadwyedd data ardaloedd bach; bydd effaith crebachu yn tueddu i symud sgôr MSOA tuag at sgôr ardal lefel uwch eu rhiant. Mae crebachu'n cymedroli lefelau annibynadwyedd yn y set ddata ac yn lleihau effaith amrywiadau siawns o flwyddyn i flwyddyn. Mae sgoriau o'r fath yn digwydd yn fwyaf cyffredin lle mae'r niferoedd yn fach ar lefel MSOA ac felly mae'r digwyddiad yn gymharol brin. Gall hyn fod yn wir am y dangosydd yn ei gyfanrwydd neu ar gyfer MSOAu penodol yn unig. Mewn amcangyfrif crebachiad, amcangyfrifir bod y sgôr ar gyfer ardal fach yn gyfuniad wedi'i bwysoli o sgôr yr ardal fach honno a'r gwerth cymedrig ar gyfer ardal fwy lle mae'r ardaloedd llai yn yr ardal fwy yn benthycia cryfder. Bydd Ardaloedd Awdurdod Lleol 2020 yn cael eu defnyddio fel yr ardal fwy (dyma'r ardal fwy a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau crebachiad yn y Mynegion Amddifadedd). Mae MSOAu mewn un Ardal Awdurdod Lleol yn rhannu materion sy'n ymwneud â llywodraethu lleol. I ryw raddau, efallai y byddant hefyd yn rhannu materion sy'n ymwneud ag is-hinsoddau'r farchnad lafur. Defnyddir crebachiad yn cael ei gymhwyso i bob dangosydd ac eithrio'r rhai a gyhoeddir ar lefel Ardal Awdurdod Lleol ac Ardal Teithio i'r Gwaith (gweler y tabl yng Ngham 1 uchod).

## Cam 4 Sicrhau bod pob dangosydd yn "pwyntio i'r un cyfeiriad".

Er mwyn cyfuno'r dangosyddion yn feysydd, mae angen i bob un o'r dangosyddion gael eu cyfeirio i'r un cyfeiriad. Fodd bynnag, ar gyfer rhai o'r dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn y mesur hwn, mae gwerth *uchel* yn dangos lefelau isel o gydnerthedd ar IAC – er enghraifft byddai ardal sydd â lefelau uchel o amseroedd teithio i wasanaethau allweddol yn cael ei mesur fel un sydd â lefelau isel o gydnerthedd. I'r gwrthwyneb, ar gyfer dangosyddion eraill, mae sgôr uchel yn dynodi lefelau uchel o gydnerthedd – er enghraifft, ardaloedd sydd â chyllid grant uchel. Felly, mae angen 'gwrth-droi'r polaredd' ar gyfer rhai sgoriau i sicrhau bod gwerth uchel yn negyddol ar gyfer pob dangosydd – fel y gellir eu cyfuno'n gyson.

## Cam 5 Cynhyrchu dangosyddion cyfansawdd

Bydd is-set fach o'r dangosyddion yn cael ei chyfuno i ddarparu dangosyddion cyfansawdd cyn cyfuno â'r dangosyddion eraill i greu sgoriau meysydd.

Bydd y dangosyddion canlynol yn cael eu grwpio gyda’i gilydd:

	Dangosyddion gwreiddiol	Dangosydd cyfun
<ul style="list-style-type: none"> <li>Dwysedd Asedau Gwyrdd</li> <li>Ardal o fannau gwyrdd cyhoeddus.</li> </ul>		Asedau gwyrdd
<ul style="list-style-type: none"> <li>Dwysedd Swyddi yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith</li> <li>Dwysedd Swyddi yn yr Ardal Leol</li> </ul>		Dwysedd Swyddi
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflymder llwytho i fyny band eang</li> <li>Cyflymderau llwytho i lawr band eang</li> </ul>		Band Eang
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i siopau bwyd</li> <li>Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i feddygfeydd</li> <li>Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Ysgolion cynradd</li> <li>Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Ysgolion uwchradd</li> <li>Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Swyddfa'r Post</li> <li>Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Lyfrgell gyhoeddus</li> <li>Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Fferyllfeydd</li> <li>Amseroedd teithio preifat i orsafoedd Petrol (trafnidiaeth breifat yn unig)</li> <li>Cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i Gyfleusterau Chwaraeon</li> <li>Pellter cyfartalog i'r Parc agosaf, Gardd Gyhoeddus, neu Faes Chwarae</li> </ul>		Cysylltedd ffisegol
<ul style="list-style-type: none"> <li>Pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain</li> <li>Presgripsiynau meddygon teulu ar gyfer Unigrwydd</li> <li>Lefelau hunan-adrodd o unigrwydd</li> </ul>		Arwahanrwydd cymdeithasol <sup>13</sup>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Hunan-adrodd ar gyfranogiad cymunedol a dinesig</li> <li>Cryfder cysylltiadau cymdeithasol lleol</li> </ul>		Cyfranogiad dinesig
<ul style="list-style-type: none"> <li>Busnesau bach: Unedau Busnes Lleol gyda 0-4 o weithwyr</li> <li>Busnesau bach: Benthyciadau i fusnesau bach a chanolig gan fanciau</li> <li>Busnesau bach: Nifer y busnesau cynhyrchiol</li> </ul>		Busnesau bach

Cyn cyfuno pob un o'r dangosyddion unigol i gynhyrchu dangosydd cyfansawdd cyffredinol, bydd y dangosyddion yn destun crebachiad i ddechrau (i leihau unrhyw wallau safonol sy'n gysylltiedig â niferoedd bach), yna bydd y dangosyddion yn cael eu safoni (drwy eu graddio a'u trawsnewid i ddsbarthiad normal) – gan fod pob un o'r dangosyddion cyfansawdd ar raddfa wahanol (mae cam 6 isod yn disgrifio'r broses safoni'n fanylach). Sylwer: Os oes mwy na dau ddangosydd cydran mewn dangosydd cyfansawdd – bydd dangosyddion yn cael eu gwirio ar gyfer cydberthyniad cadarnhaol ac ar yr amod bod cysylltiad cadarnhaol rhwng y dangosyddion, bydd pwysau pob dangosydd cydran yn cael eu pennu gan ddefnyddio dadansoddiad ffactorau (gweler cam 8 isod); lle mae dau ddangosydd mewn dangosydd cyfansawdd, bydd pob dangosydd yn cael pwysoliad cyfartal o 0.5.

<sup>13</sup>Defnyddir dadansoddiad o ffactorau i bwysoli'r dangosydd hwn (gweler yr esboniad isod)

## Cam 6 Safoni

Wrth gyfuno mesurau, mae'n bwysig sicrhau bod sgoriau dangosyddion yn gymaradwy ac nad yw pwysoliad meysydd yn cael ei ystumio gan y ffaith y gallai rhai o'r dangosyddion fod â dosbarthiad gwahanol iawn. Mae'r dangosyddion yn yr IAC yn seiliedig ar wahanol fetrigau ac mae angen safoni pob dangosydd yn y Mynegai i sicrhau bod dosbarthiad cyffredin i bob dangosydd, fel y gellir cyfuno dangosyddion, heb i un dangosydd ddomynddu oherwydd dosbarthiad llawer mwy. Bydd dangosyddion yn cael eu safoni drwy restru pob un o'r dangosyddion ac yna eu trawsnewid i ddsbarthiad normal.

## Cam 7 Creu is-feysydd

Bydd y meysydd *cymunedau sy'n ymgysylltu a Chysylltedd ac Egniol* yn cael eu rhannu'n is-feysydd. Y prif reswm dros wneud hyn yw er mwyn adlewyrchu cymeriad y meysydd – gan fod y ddwy set o feysydd yn cynnwys dau is-set o ddangosyddion sy'n benodol gysyniadol.

Mae'r maes *Cysylltedd* yn edrych ar gysylltedd o ran mynediad at wasanaethau ar yr un llaw a mesurau cysylltedd ehangach ar y llaw arall – fel mynediad at drafnidiaeth, cysylltedd digidol ac arwahanrwydd, nad oes ganddynt o reidrwydd gysylltiadau cryf â chysyniadau mwy ffisegol cysylltedd. Felly, rydym yn cynnig grwpio'r maes yn ddau is-faes:

Is-faes	Dangosyddion
Cysylltedd ffisegol	Natur gysylltiedig ffisegol Dwysedd Swyddi
Cysylltedd ehangach	Aelwydydd heb gar Cyflymderau band eang Arwahanrwydd cymdeithasol

Mae'r maes *cymuned egniol ac ymgysylltiol* yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud â chyfranogiad ac ymgysylltiad sy'n cael eu hunan-adrodd, ochr yn ochr â mesurau o gryfder y sector cymuned. Unwaith eto, mae'n gwneud synnwyr cysyniadol grwpio'r rhain yn is-feysydd ar wahân fel a ganlyn:

Is-faes	Dangosyddion
Cyfranogiad dinesig	Y nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau lleol Hunan-adrodd ar gyfranogiad cymunedol a dinesig Cyfranogiad diwylliannol
Gweithgarwch dinesig	Mudiadau trydydd sector y pen Cyllid y Loteri Fawr y pen Cyllid grant y pen gan gyllidwyr grantiau mawr Busnesau bach

Mantais ychwanegol o grwpio dangosyddion yn is-feysydd yw ei bod yn bosibl cymhwyso pwysau empirig i'r dangosyddion gan ddefnyddio dadansoddiad o ffactorau (a drafodir yn yr adran bwysoli isod) – un o'r prif ffactorau sy'n rhwystro cynnal dadansoddiad ffactorau ar y meysydd yn gyffredinol yw nad oes gan y dangosyddion sylfaenol

perthynol gysylltiad/ffactor sylfaenol sy'n egluro eu dosbarthiad. Mae grwpio'r dangosyddion yn is-feysydd llai lle mae dangosyddion yn rhannu'r un ffactorau, yn galluogi dadansoddi ffactorau i gael ei gynnal i gymhwyso pwysoliadau i'r rhan fwyaf o ddangosyddion.

## Cam 8 Dangosyddion pwysoli

Bydd techneg ystadegol o'r enw Dadansoddiad o'r Ffactor Tebygolrwydd Mwyaf yn cael ei defnyddio i bennu pwysau'r dangosyddion ym mhob maes/is-faes. Mae dadansoddi ffactorau'n gweithio'n fwyaf effeithiol lle ceir un ffactor sy'n gorlethu, sy'n egluro'r perfformiad ar set o ddangosyddion mewn maes a lle mae dangosyddion mewn maes yn dylanwadu ar ei gilydd. Canlyniad defnyddio dadansoddiad ffactorau yw na fydd pwysau cyfartal ar bob dangosydd yn y maes, gyda'r pwysoliadau yn cael eu heffeithio gan y graddau y mae pob un o'r dangosyddion mewn maes yn mesur yr agwedd sylfaenol y mae'r parth yn ceisio'i chofnodi. Un o fanteision allweddol defnyddio dadansoddiad ffactorau yw ei fod yn ystyried 'cyfrif dwbl' mewn meysydd. Rydym wedi cynnal dadansoddiad cydberthyniad ar y IAC i bennu'r cydgysylltiadau rhwng dangosyddion ym mhob maes/is-faes. Yn dilyn canlyniad yr ymchwil hwn, rydym wedi cymhwyso dadansoddiad o ffactorau i'r maes *Asedau dinesig*, yr is-barth *Cysylltedd Ffisegol*, yr is-barth *Gweithgarwch Dinesig* ac is-barth *Cyfranogiad Dinesig* yr IAC. Ar gyfer yr is-barth *cysylltedd ehangach*, bydd pob un o'r dangosyddion yn cael pwysoliad cyfartal gan nad oes cysylltiad agos rhwng pob un o'r dangosyddion.

## Cam 9 Cyfuno dangosyddion i ffurfio is-feysydd a meysydd.

Mae'r dangosyddion wedi'u pwysoli a'u safoni wedi'u cyfuno wedyn i ffurfio sgoriau is-faes (yn achos dangosyddion yn y meysydd *Cymuned egniol/ymgysylltiol a Chysylltedd*) a sgoriau maes (yn achos y maes *Asedau dinesig* – nad yw'n cynnwys unrhyw is-feysydd). Mae'r broses gyfuno yn cynnwys crynhoi pob un o sgoriau'r dangosyddion wedi'u pwysoli (pwysau sgôr y dangosydd safonedig \*) ynghyd ar gyfer yr holl ddangosyddion mewn maes/is-faes.

Mae'r is-feysydd wedyn yn cael eu safoni (gan ddefnyddio'r dull trawsnewid esbonyddol a amlinellir yng nghanam 10 isod) ac yna'n cael eu hadio at ei gilydd i ffurfio sgoriau maes.

## Cam 10 Safoni meysydd

Yna, mae'r tri sgôr maes yn cael eu cyfuno i gynhyrchu Indecs Asedau Cymunedol (IAC).

Fodd bynnag, mae pob un o'r meysydd ar raddfa wahanol i'w gilydd, bydd dau yn cael eu cynhyrchu o sgoriau is-faes cyfun, a bydd y maes *Asedau dinesig* yn cael ei gynhyrchu o ddangosyddion cyfun wedi'u pwysoli. Felly, mae angen safoni sgoriau'r maes cyn cyfuno. Yn yr un modd â Mynegai Anghenion Cymunedau Lloegr 2021, y dull safoni sydd wedi cael ei fabwysiadu yw trawsnewid y meysydd i **ddosbarthiad esbonyddol** penodol gan ddefnyddio swyddogaeth Trawsnewid Esbonyddol. Yna, cyfunir y sgoriau maes/is-faes a drawsnewidiwyd yn esbonyddol i ffurfio mesur 'cydnerthedd cymunedol' cyffredinol ar lefel MSOA.

Mae'r dull Trawsnewid esbonyddol o safoni yn wahanol i'r dull dosbarthu arferol gan ei fod yn rhoi mwy o bwyslais ar ben mwyaf difreintiedig y dosbarthiad ac felly'n hwyluso adnabod yr ardaloedd sydd â'r lefelau cydnerthedd isaf. Dyma'r dull safoni a ddefnyddiwyd yn y Mynegai Amddifadedd er mwyn rheoli effeithiau canslo e.e. nid yw lefelau uchel o amddifadedd mewn un maes yn cael eu canslo'n llwyr gan lefelau isel o amddifadedd mewn maes gwahanol ac mae'n sicrhau bod ardaloedd sy'n perfformio'n arbennig o wael ar agwedd benodol ar gydnherthedd cymunedol yn cael eu symud yn nes at lefel isel y sbectrwm cydnerthedd cymunedol hyd yn oed pan fyddant yn dangos canlyniadau cadarnhaol ar ddangosyddion eraill.

## Cam 11 Pwysoli meysydd

Y cam olaf ar gyfer cynhyrchu Indecs Asedau Cymunedol yw neilltuo pwysau i'r tri maes sydd wedi cael eu creu – cymhwysio sgoriau'r meysydd cyn mewngludo. Mae'n bwysig nodi bod pob cyfuniad posibl o feysydd yn cynnwys pwysau. Os, ar ôl safoni, bydd y meysydd cael eu hadio at ei gilydd, bydd hyn yn rhoi pwysau cyfartal i bob maes. Ein dull gweithredu yw i'r pwysau fod yn benodol ac yn seiliedig ar feini prawf clir. Rydym wedi ymrwymo i drefn o gyfuno Mynegeion Maes yn y fath fodd fel bod pwysoliad y mynegeion yn benodol. Mae rhan o'r ymrwymiad hwn i bwysau tryloyw yn cynnwys safoni Mynegeion y Maes fel yr amlinellir uchod. Mae hyn yn sicrhau bod modd cyfuno'r meysydd heb bwysau 'cudd'. Ar ôl safoni'r meysydd, gallwn wedyn ddewis pwysau penodol. Rydym wedi mabwysiadu'r un dull o bwysoli meysydd ag y cytunwyd ar gyfer CNI Lloegr 2021.

## Cam 12 Creu Indecs Asedau Cymunedol (IAC)

Ar ôl cytuno ar y dull sy'n cael ei ffafrio ar gyfer cynhyrchu pwysau meysydd, gellir cyfuno'r meysydd i gynhyrchu Indecs Asedau Cymunedol (IAC) yn ei gyfanrwydd. Mae'r broses gyfuno yn cynnwys crynhoi pob un o'r sgoriau maes safonedig wedi'u pwysoli (y sgoriau maes\* wedi'u trawsnewid yn esbonyddol) gyda'i gilydd i gynhyrchu sgôr gyffredinol ar gyfer Indecs Asedau Cymunedol. Mae'r sgôr hon wedyn yn cael safle ar draws pob MSOA yng Nghymru er mwyn cyfuno â sgôr WIMD (cam 13 isod) i nodi'r ardaloedd *'llai cydnerth'*.

## Cam 13 Nodi mewn ardaloedd llai cydnerth

Mae ardaloedd llai cydnerth yn cael eu cysyniadu fel MSOAs yng Nghymru, sydd â lefelau uchel o angen ar yr WCAI ac ar y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019. Mae Camau 1-12 yn ymwneud â chynhyrchu WCAI lefel MSOA. Y cam nesaf yw paru'r data hwn â WIMD 2019 – er mwyn gallu dadansoddi'r ddau Fynegai gyda'i gilydd i ganfod ardaloedd a adawyd ar ôl.

Er mwyn cyfuno WCAI a WIMD 2019, mae'n rhaid cyfuno WIMD 2019 i lefel MSOA yn gyntaf.

Mae WIMD 2019 yn cael ei gynhyrchu ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) 2011 – mae LSOAau 2011 yn ffitio'n berffaith gyda MSOAau 2011. Felly mae modd cyfuno sgoriau LSOA i lefel MSOA gan ddefnyddio dull wedi'i bwysoli ar gyfer y boblogaeth<sup>[1]</sup> (dyma'r tabl chwilio mwyaf addas sy'n neilltuo pob Ardal Gynnyrch i un ward yn unig – nid yw Ardaloedd Cynnyrch yn pontio ffiniau wardiau). Mae'r dull pwysoli poblogaeth yn crynhoi'r sgoriau LSOA gyda'i gilydd. Er mwyn rhoi'r pwysau priodol i bob LSOA ar gyfer y swm, mae sgoriau'r LSOA yn cael eu pwysoli yn ôl maint poblogaeth yr LSOA. Mae hyn yn golygu bod pob un o'r sgoriau LSOA yn cael eu llusio â phoblogaeth berthnasol yr LSOA cyn crynhoi, ac mae'r sgoriau terfynol ar gyfer yr ardaloedd o ddiddordeb yn cael eu rhannu â swm y poblogaethau LSOA perthnasol yn yr ardal honno. Mae'r boblogaeth LSOA berthnasol a ddefnyddir yn y cyfrifiad hwn yn deillio o fersiwn wedi'i ddsrannu o'r Mynegeion Amddifadedd<sup>[2]</sup>. Canlyniad y cam hwn yw bod sgôr WIMD 2019 ar lefel MSOA yn cael ei chynhyrchu.

Mae sgôr WIMD 2019 ar lefel MSOA yn cael ei chyfuno â sgôr WCAI i gynhyrchu'r mesur cyffredinol ar gyfer nodi Ardaloedd Llai Cydnerth (LRA). Fodd bynnag, mae'r WIMD a'r WCAI ar raddfa wahanol i'w gilydd. Felly, mae angen safoni sgoriau'r maes cyn cyfuno. Yn yr un modd â'r dull o gyfuno meysydd i greu'r WCAI, y dull safoni sydd wedi cael ei fabwysiadu yw trawsnewid y meysydd yn **ddosbarthiad esbonyddol** penodol gan ddefnyddio swyddogaeth Trawsnewid Esbonyddol. Yna, cyfunir y sgoriau maes/is-

faes a drawsnewidiwyd yn esbonyddol i ffurfio sgôr gyffredinol ar draws bob MSOA yng Nghymru. Mae MSOAau yn cael eu sgorio o 1-410 ar y mesur hwn (lle mai 1 yw'r sgôr cyfun uchaf), gyda'r ardaloedd hynny yn y 25% uchaf yng Nghymru (safleoedd 1-102) yn cael eu nodi fel ardaloedd 'llai cydnerth'.



## Atodiad F: Methodoleg Dadansoddi Ffactorau

Defnyddir dadansoddi ffactorau fel dull o gyfuno dangosyddion, drwy ganfod pwysau priodol ar gyfer cyfuno dangosyddion i greu un sgôr yn seiliedig ar y gydberthynas rhwng yr holl ddangosyddion.

Dim ond mewn meysydd lle mae 'newidynnau cudd' yn bodoli'n ddamcaniaethol, a lle mae newidynnau'r dangosydd yn 'ddangosyddion effaith', h.y. dangosyddion y mae'r newidyn cudd yn dylanwadu arnynt.

Mae llawer o ymgeiswyr o ran mathau o ddadansoddi ffactorau. Dau o'r prif ymgeiswyr yw'r dadansoddiad mwyaf tebygol o ffactorau (fel sy'n cael ei ddefnyddio yn fersiynau presennol a blaenorol y Mynegeion Amddifadedd) a'r Dadansoddiad o Brif Elfennau. Mae'r gwahaniaeth rhwng y dadansoddiad o'r ffactorau mwyaf tebygol a'r Dadansoddiad o Brif Elfennau yn un technegol. Yn gryno, y tybiaethau sy'n sail i Ddadansoddiad o Brif Elfennau yw bod y dangosyddion sy'n mynd i'r dadansoddiad yn gwbl ddibynadwy ac yn cael eu mesur yn ddi-wall. Nid oes angen tybiaeth o'r fath ar gyfer dadansoddiad o'r tebygolrwydd mwyaf.

Roedd y broses o gyfuno dangosyddion drwy ddadansoddi ffactorau yn cynnwys tri cham:

Cafodd yr holl ddangosyddion eu trosi i'r dosbarthiad normal safonol.

Roedd y sgoriau safonedig yn destun dadansoddi ffactorau (gan ddefnyddio'r dull Tebygolrwydd Mwyaf), a oedd yn deillio o set o bwysau.

Cyfunwyd y dangosyddion wedyn gan ddefnyddio'r pwysau hyn.

## Atodiad G: Trawsnewid esbonyddol

Er mwyn cyfuno'r meysydd i fesur o angen yn gyffredinol, mae angen safoni sgoriau'r meysydd yn gyntaf. Dylai unrhyw safoni a thrawsnewid fodloni'r meini prawf canlynol:

- Dosbarthiad safonol. Rhaid iddo sicrhau bod gan bob maes ddosbarthiad cyffredin, fel bod modd cyfuno meysydd, heb i un maes ddominyddu oherwydd dosbarthiad llawer mwy.
- Nodi meysydd o angen. Rhaid iddo hwyluso'r broses o ganfod yr ardaloedd sydd â'r lefelau uchaf o angen yn hawdd.
- Annibynnol o ran graddfa. Rhaid iddo beidio â bod yn ddibynnol ar raddfa (mewn geiriau eraill, drysu rhwng maint y boblogaeth a lefel yr angen).

Mae un dull safoni posibl yn golygu bod pob un o sgoriau'r maes yn cael eu sgorio, ac yna mae'r safleoedd yn cael eu trawsnewid yn ddosbarthiad esbonyddol.

Mae gan y dosbarthiad esbonyddol nifer o briodweddau sy'n bodloni'r meini prawf uchod.

### Dosbarthiad safonol

Mae'r dosbarthiad esbonyddol yn trawsnewid pob maes fel bod gan bob un ddosbarthiad cyffredin, yr un ystod a'r gwerthoedd uchaf / isaf union yr un fath. Mae'r broses yn dechrau drwy restru'r sgoriau ym mhob maes i safoni sgoriau'r maes (o 1 ar gyfer yr angen isaf i 410 ar gyfer yr angen uchaf), cyn defnyddio'r weithdrefn drawsffurfio esbonyddol i greu sgôr safonol ar gyfer y meysydd sy'n amrywio o 0 (angen isaf) i 100 (angen uchaf).

### Canslo

Mae'r dull trawsnewid esbonyddol yn rhoi rheolaeth dros y graddau y mae diffyg angen mewn un maes yn canslo neu'n gwneud iawn am angen mawr mewn maes arall. Mae'n caniatáu rheoleiddio manwl ar yr effeithiau canslo hyn, er nad yw'n eu dileu. Mae'r cysonyn graddio (23) a ddefnyddir yn arwain at ganslo tua 10 y cant. Mae hyn yn golygu, yn yr achos eithafol, y byddai MSOA, a oedd wedi'i restru'n fwyaf difreintiedig mewn un maes ond yn lleiaf difreintiedig mewn un arall, yn cael ei sgorio ar y 90fed canradd o ran lefelau'r angen. Mae hyn yn cymharu â'r 50fed ganradd petai safleoedd heb eu trawsnewid, neu ddosbarthiad arferol, wedi cael eu defnyddio yn lle hynny.

### Nodi ardaloedd difreintiedig

Mae'r trawsnewid esbonyddol yn lledaenu'r rhan honno o'r dosbarthiad lle mae'r diddordeb mwyaf – dyma'r 'gynffon' sy'n cynnwys yr ardaloedd sydd â'r lefelau angen uchaf ym mhob maes. Mae'r cysonyn graddio'n sicrhau bod y 10 y cant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn cwmpasu 50 y cant o ddosbarthiad y sgoriau (mewn geiriau eraill, sgoriau rhwng 50 a 100 ar ôl trawsnewid esbonyddol).

## Annibynnol o ran graddfa

Nid yw maint poblogaeth MSOA yn effeithio ar y trawsnewid.

## Y cyfrifiad trawsnewid esbonyddol

Mae'r trawsnewid a ddefnyddiwyd fel a ganlyn:

Ar gyfer unrhyw MSOA, nodwch ei safle yn y maes R, wedi'i raddio yn ôl yr ystod [0,1].  $R=1/N$  ar gyfer y lleiaf difreintiedig a  $R=N/N$  (mewn geiriau eraill  $R=1$ ) ar gyfer y mwyaf difreintiedig, lle mae N=nifer yr MSOAau yng Nghymru.

Mae'r sgôr maes X sydd wedi'i drawsnewid yn cael ei roi fel:

$$X = -23 \ln(1 - R(1 - \exp^{-100/23}))$$

lle mae 'ln' yn dynodi logarithm naturiol ac 'exp' y trawsnewid esbonyddol neu antilog

## Atodiad H: Crebachiad

### Gwella dibynadwyedd gwerthoedd data ardaloedd bach gan ddefnyddio amcangyfrif crebachiad

Mae'r dechneg crebachu wedi'i chynllunio i ddelio â'r problemau sy'n gysylltiedig â niferoedd bach mewn MSOA. Mewn rhai ardaloedd – yn enwedig lle mae'r boblogaeth mewn perygl yn fach – gall data fod yn 'annibynadwy', sy'n fwy tebygol o gael ei effeithio gan samplu a ffynonellau eraill o wallau.

Mae'r dechneg o amcangyfrif crebachiad (mewn geiriau eraill, amcangyfrif Bayesaidd empirig) yn cael ei defnyddio i 'fenthycu cryfder' o ardaloedd mwy er mwyn osgoi creu data ardal fach annibynadwy. Mae amcangyfrif crebachiad yn golygu symud sgorau MSOA tuag at sgôr fwy cadarn arall, sy'n aml yn ymwneud â lefel ddaearyddol uwch. Bydd pob sgôr MSOA yn symud rhywfaint drwy grebachu, ond y rhai sydd â gwallau safonol mawr (mewn geiriau eraill y sgoriau mwyaf 'annibynadwy') fydd yn tueddu i symud fwyaf. Gellir symud y sgôr MSOA tuag at sgôr 'angen uwch' neu 'angen is' drwy amcangyfrif crebachiad. Heb grebachiad, byddai gan rai MSOAau sgoriau nad ydynt yn disgrifio'n ddibynadwy yr angen cymunedol yn yr ardal oherwydd amrywiadau siawns o flwyddyn i flwyddyn.

Gellid dadlau bod amcangyfrif crebachiad yn amhriodol ar gyfer data gweinyddol sydd, i bob pwrpas, yn gyfrifiad. Nid yw hyn yn wir. Mae'r broblem yn bodoli nid yn unig lle mae data'n deillio o samplau ond hefyd lle mae sganio data gweinyddol i bob pwrpas yn golygu bod cyfrifiad cyfan o grŵp penodol yn cael ei ystyried. Y rheswm am hyn yw y gellir ystyried cyfrifiadau o'r fath yn samplau o 'uwch-boblogaethau', y gellid ystyried eu bod yn samplau mewn amser. Mae'r holl ddata o ffynonellau gweinyddol a Chyfrifiad 2011 yn cael eu trin fel samplau o uwch-boblogaeth fel hyn, a defnyddiwyd y dechneg crebachu ar gyfer dangosyddion sy'n defnyddio'r data hwn. Yr eithriadau yw'r dangosyddion a gyflenwir ar lefel Rhanbarth Awdurdodau Lleol.

### Dewis yr ardaloedd mwy lle gall data ardal fach annibynadwy fenthycu cryfder

Dylai'r egwyddor ar gyfer dewis yr ardal fwy fod yn un y mae'r MSOAau oddi mewn iddynt yn rhannu nodweddion. Yn y fethodoleg crebachu bresennol, defnyddir Ardaloedd Awdurdodau Lleol. Mae'r MSOAau mewn un ardal yn rhannu materion sy'n ymwneud â llywodraethu lleol ac o bosibl ag is-hinsoddau economaidd. I ryw raddau, efallai y byddant hefyd yn rhannu materion sy'n ymwneud ag is-hinsoddau'r farchnad lafur.

### Y cyfrifiad crebachu

Union fecanwaith y weithdrefn crebachu yw amcangyfrif amddifadedd mewn MSOA penodol gan ddefnyddio cyfuniad wedi'i bwysoli o ddata (a) o'r MSOA, a (b) data o sgôr mwy cadarn arall (yn achos y Mynegeion, dyma sgôr Ardal Awdurdod Lleol). Mae'r pwysau'n ceisio cynyddu effeithlonrwydd yr amcangyfrif, heb gynyddu ei duedd. Mae'r holl sgoriau MSOA yn cael eu haddasu i ryw raddau drwy'r broses grebachu, ond bydd maint yr addasiad ar ei fwyaf ar gyfer ardaloedd sydd â'r sgoriau lleiaf dibynadwy. Mae maint y symudiad yn dibynnu ar faint y gwall safonol a maint yr heterogenedd ymysg yr MSOAau mewn Ardal Awdurdod Lleol.

Mae'r amcangyfrif o 'grebachiad' cyfran (neu gymhareb) lefel MSOA yn gyfartaledd wedi'i bwysoli o'r ddwy gyfran 'amrwd' ar gyfer yr MSOA ac ar gyfer y Rhanbarth cyfatebol. Mae'r pwysau a ddefnyddir yn cael eu pennu yn ôl maint cymharol yr amrywioldeb yn y Ward a rhwng Wardiau.

Os yw'r gyfradd ar gyfer dangosydd penodol yn MSOA  $j$  yn  $r_j$  o ddiwyddiadau mewn poblogaeth o  $n_j$ , y logit empirig ar gyfer pob MSOA yw:

$$m_j = \log \left[ \frac{(r_j + 0.5)}{(n_j - r_j + 0.5)} \right]$$

y mae ei amcangyfrif o wall safonol  $s_j$  yn ail isradd:

$$s_j^2 = \frac{(n_j + 1)(n_j + 2)}{n_j(r_j + 1)(n_j - r_j + 1)}$$

Mae'r cyfrifiadau cyfatebol  $r$  allan o  $n$  ar gyfer yr ardal y mae MSOA  $j$  ynddi yn rhoi'r logit lefel ardal:

$$M = \log \left[ \frac{(r + 0.5)}{(n - r + 0.5)} \right]$$

Y logit lefel MSOA 'wedi'i grebachu' yw'r cyfartaledd wedi'i bwysoli:

$$m_j^* = w_j m_j + (1 - w_j) M$$

Ile mai  $w_j$  yw'r pwysau a roddir i'r data MSOA- $j$  'amrwd' a  $(1 - w_j)$  yw'r pwysau a roddir i'r gyfradd gyffredinol ar gyfer yr ardal. Y fformiwla a ddefnyddir i bennu  $w_j$  yw:

$$w_j = \frac{1/s_j^2}{1/s_j^2 + 1/t^2}$$

pan mai  $t^2$  yw'r amrywiant rhyng-Ward ar gyfer y MSOAau  $k$  yn yr ardal, wedi'i gyfrifo fel:

$$t^2 = \frac{1}{k-1} \sum_{j=1}^k (m_j - M)^2$$

Felly, mae gan MSOAau mawr, lle mae cywirdeb  $1/s_j^2$  yn gymharol fawr, bwysau  $w_j$  sy'n agos at 1 ac felly nid yw crebachu'n cael fawr o effaith. Mae'r effaith crebachu ar ei fwyaf ar gyfer MSOAau bach mewn ardaloedd cymharol unfurf.

Y cam olaf yw ôl-drawsnewid y logit  $m_j^*$  a grebachwyd, gan ddefnyddio'r 'gwrth-logit', i gael y gyfran lefel MSOA a grebachwyd ar gyfer pob MSOA:

$$z_j = \frac{\exp(m_j^*)}{1 + \exp(m_j^*)}$$